Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pennu Cwmpas Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus Newydd i Gymru

www.llyw.cymru



| | |
|---|---|
| **Ar gyfer gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig** | Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill ar gael os gofynnir amdanynt. |
| **Manylion cyswllt** | **Tîm Datblygu Llyfrgelloedd**<br>Is-Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd<br>Llywodraeth Cymru<br>Rhodfa Padarn<br>Aberystwyth<br>Ceredigion<br>SY23 3UR |
| **Ebost:** | mald@wales.gsi.gov.uk |
| **Ffôn:** | 0300 062 2112 |
| **Gwefan:** | www.gov.wales/topics/cultureandsport/museums-archives-libraries/?lang=cy |

Lluniau © Llywodraeth Cymru – Llyfrgelloedd yn Ysbrodoli

Cyhoeddwyd Hydref 2015

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG26705 ISBN digidol 978 1 4734 4860 5

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| I | Crynodeb Gweithredol | 5 |
| II | Rhagarweiniad | 8 |
| III | Y Model Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus Presennol | 14 |
| IV | Gosod y Sylfaen ar gyfer y Dyfodol | 17 |
| V. | Dull Gweithredu Newydd ar gyfer Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru | 21 |
| VI. | Consortia Darpariaeth Ranbarthol neu Ddarpariaeth Genedlaethol? | 25 |
| VII. | Llyfrgell Ddigidol Gyhoeddus Genedlaethol ar gyfer Cymru | 38 |
| VIII. | Casgliad | 40 |
| | Atodiadau | |
| 1. | Hawliau Craidd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru | 42 |
| 2. | Crynodeb o ddata llyfrgelloedd cyhoeddus fesul rhanbarth ac awdurdod lleol presennol | 43 |
| 3. | Cyfeiriadau | 44 |

# I. Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r Adroddiad hwn yn amlinellu ymchwil ac ymholiadau a wnaed yn ddiweddar i'r newidiadau yn narpariaeth gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Mae hefyd yn adolygu tystiolaeth a ddaeth i law yn sgil datblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol er mwyn amlinellu model ar gyfer rheoli gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yn gynaliadwy yn y dyfodol a'u darparu er mwyn diwallu anghenion pobl Cymru. Yn olaf, mae'n ceisio crynhoi'r prif gamau y byddai'n rhaid eu cymryd er mwyn gweithredu model o'r fath.

2. Y bwriad yw creu cynllun er mwyn nodi sut y byddai gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn cyfrannu at ddarparu canolfannau gwasanaethau cymunedol ar y cyd, ar sail gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus digidol cenedlaethol. Er mwyn gweithredu hyn yn llwyddiannus, bydd angen ymrwymiad, ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, i'r egwyddor bod gan wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus rôl hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau cymunedol, dysgu gydol oes, gwybodaeth ddigidol, llythrennedd a chynhwysiant, a chydlyniant cymunedol.

3. Daw'r Adroddiad i'r casgliad bod yna 4 elfen i sefydlu gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus cryfach yng Nghymru - canolfannau cymunedol ar y cyd, consortia darpariaeth ranbarthol, gwasanaeth llyfrgelloedd digidol cenedlaethol a strategaeth ar gyfer y gweithlu. Y brif elfen yw rhwydwaith lleol o ganolfannau cymunedol ar sail gwasanaeth llyfrgelloedd digidol cenedlaethol. Byddai darpariaeth leol yn cael ei rheoli drwy hyd at 4 consortia rhanbarthol - y Gogledd, y De-orllewin a'r Canolbarth, Canol De Cymru a'r De-ddwyrain - a fyddai hefyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros strategaethau ar gyfer y gweithlu. Lle caiff llyfrgelloedd llai eu trosglwyddo i reolaeth gymunedol, dylai'r llywodraeth leol roi ei chefnogaeth yn unol â'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015.

4. Byddai'r dull gweithredu arloesol hwn yn seiliedig ar argymhellion Adolygiad Arbenigol Llywodraeth Cymru o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru (2014) ac Ymchwiliad Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014), yn ogystal ag ymchwil ddiweddar. Byddem hefyd yn parhau i fesur y ddarpariaeth gwasanaeth statudol gan ddefnyddio Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

5. Mae ymholiadau ac ymchwiliadau diweddar i wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus wedi ategu'r farn gyffredin bod llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau o bob math ar lefel genedlaethol a lefel llywodraeth leol, fel cynhwysiant cymdeithasol, cynhwysiant digidol a helpu pobl i ddod o hyd i waith. Mae pob un o'r rhain yn helpu i drechu tlodi. Yn bennaf oll, mae llyfrgelloedd yn helpu i wella lefelau llythrennedd, ac yn benodol maent yn meithrin cariad at ddarllen ymhlith plant. Yn ôl ymchwil a wnaed gan Brifysgol Llundain:

> *"Reading for pleasure is a more important indicator of future success than any socio-economic factor. ... The combined effect on children's progress of reading books often, going to the library regularly and reading newspapers at 16 was four*

*times greater than the advantage children gained from having a parent with a degree".*[1]

6. Mae gan lyfrgelloedd cyhoeddus rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu dinasyddion i allu manteisio ar dechnoleg ddigidol drwy gynnig mynediad am ddim i'r Rhyngrwyd a chymorth a chefnogaeth y staff. Mae llyfrgelloedd yn ganolog i fentrau yng Nghymru er mwyn helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu ar-lein yn bennaf, fel Credyd Cynhwysol a Paru Swyddi Ar-lein.

   *"Ledled Cymru, llyfrgelloedd yw asgwrn cefn y ddarpariaeth ryngrwyd i'r rheini na allant fforddio band eang yn eu cartrefi eu hunain. A'r dyddiau yma, y rhyngrwyd yw un o'r ffyrdd gorau o ddianc rhag tlodi". [Cathryn Marcus, Cyfarwyddwr Prosiect Cynhwysiant Digidol Cymunedau 2.0]*

7. Yn yr Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru (2014), nodwyd yr angen i weithredu dull newydd o reoli a darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Daeth yr Adolygiad i'r casgliad hwn:

   *"…Oni fydd awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn cydweithio'n frwdfrydig i fynd i'r afael â'r heriau a'r pwysau ariannol, bydd y llyfrgelloedd cyhoeddus a ddarperir yng Nghymru yn cael eu niweidio yn y fath fodd fel na ellir eu hadfer ac ni fyddant yn gallu diwallu anghenion eu cymunedau lleol mwyach."*[2]

8. Mae modelau cydweithredol newydd o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus yn ganolog i *adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus (2012)*, a oedd yn ystyried trefniadau gofodol newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus. Yr her sy'n wynebu'r llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol yw dyfeisio model newydd ar gyfer gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus sy'n cydnabod manteision rhannu costau wrth ddarparu gwasanaethau ledled Cymru.

9. Mae'r Adroddiad yn adolygu'r dystiolaeth o ran modelau rheoli, gan gynnwys parhau â'r ddarpariaeth gan 22 o wasanaethau llyfrgelloedd, un model cenedlaethol a model consortiwm rhanbarthol. Daw i'r casgliad y dylid ystyried creu 4 consortiwm rhanbarthol er mwyn cefnogi darpariaeth leol, ac y dylid trafod hyn ymhellach, hy y Gogledd, y Canolbarth a'r De-orllewin, Canol De Cymru a'r De-ddwyrain. O dan y model hwn, byddai'r cyfrifoldeb statudol i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus cynhwysfawr ac effeithlon yn unol â Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 (y Ddeddf) yn parhau gyda phob awdurdod lleol unigol. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf bresennol yn caniatáu i awdurdodau lleol ddod i drefniant cydweithredol gydag awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau eraill i ddarparu'r gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus.

---

1 Y Sefydliad Addysg. (2013). *Reading for pleasure*. Ewch i: http://www.ioe.ac.uk/newsEvents/89938.html.

2 Llywodraeth Cymru. (2014). *Yr Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru 2014*. Ewch i: http://gov.wales/docs/drah/publications/141021libraries-review-report-cy.pdf

10. Caiff strwythur a threfniadau rheoli cydweithredu rhanbarthol eu hadolygu, gan gynnwys y prif fodel ar gyfer awdurdodau lleol a'r posibilrwydd o ran ymddiriedolaethau rhanbarthol. Mae'r broses yn cydnabod cymhlethdod posibl sefydlu ymddiriedolaethau ar gyfer sawl gwasanaeth gwahanol ar lefel leol, rhywbeth a sefydlwyd yn ddiweddar; fodd bynnag, o dan y Ddeddf bresennol, mae'r ddyletswydd statudol yn parhau gyda'r awdurdod lleol, hyd yn oed lle bydd ymddiriedolaethau wedi'u sefydlu. Dylai'r awdurdod lleol, felly, barhau i fod â rôl ganolog mewn unrhyw drafodaeth ar faterion rheoli o ran y consortia rhanbarthol sydd dan sylw.

11. Mae'r Adroddiad hefyd yn adolygu'r consortia rhanbarthol presennol o ran gwasanaethau archifau a gwella addysg yng Nghymru er mwyn nodi'r arferion gorau o ran llywodraethu a rheoli ariannol.

12. Caiff yr amserlen ar gyfer gweithredu dull newydd ei hadolygu a chaiff hyn ei ystyried yn fater brys. Tynnir sylw at beryglon peidio â gweithredu yng nghyd-destun cwtogi ar gyllidebau ym mhob awdurdod lleol ar gyfer gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus, gan arwain at wasanaeth cynyddol anghyson ledled Cymru. Cynigir y dylid dechrau gweithredu cyn gynted ag y bydd gennym gytundeb i sicrhau manteision i ddefnyddwyr a fframwaith cryfach. Fel y nodir uchod, o gael cytundeb, gellir symud y model hwn yn ei flaen heb ddeddfwriaeth newydd i ddisodli Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964. Dylid parhau i gostio model newydd, gan fanteisio ar y gwaith cydweithredol sy'n cael ei wneud i gyflwyno'r system rheoli llyfrgelloedd newydd i Gymru.

13. Mae adroddiadau diweddar wedi nodi rhai o anfanteision Deddf 1964. Cydnabyddir y byddai angen o leiaf 3 blynedd er mwyn cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth newydd. Fodd bynnag, dylai'r drafodaeth barhau ar fanteision tybiedig disodli'r Ddeddf bresennol.

## II. Rhagarweiniad

### *Nod yr Adroddiad*

14 Nod yr Adroddiad hwn yw adeiladu ar argymhellion *Adolygiad Arbenigol Llywodraeth Cymru o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru (2014),* Ymchwiliad Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru (2014)*, ac ymchwil ddiweddar i ffurfio sylfaen ar gyfer dull newydd arloesol o ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru mewn ffordd gynaliadwy. Mae'n ceisio crynhoi'r prif gamau y byddai angen eu cymryd er mwyn cytuno ar batrwm newydd ar gyfer rheoli a darparu gwasanaethau llyfrgelloedd mewn ffordd gynaliadwy.

15. Y bwriad yw i'r camau hyn fod yn sylfaen i nodi sut y byddai gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru, ar eu newydd wedd, yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cymunedol, dysgu gydol oes, gwybodaeth ddigidol llythrennedd a chynhwysiant a chydlyniant cymunedol. Er mwyn gweithredu dull o'r fath yn llwyddiannus, bydd angen ymrwymiad ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

16. Roedd yr Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru yn argymell:

   X *Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â CLILC a’r awdurdodau lleol i symud ymlaen gyda’r gweithredoedd strategol canlynol:*

   *a) hyrwyddo mwy o gydweithio ar raddfa ehangach rhwng awdurdodau a hynny ar unwaith*
   *b) datblygu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn unol ag unrhyw fodel i lywodraeth leol a ddatblygir yng Nghymru yn y dyfodol a hynny fel ymrwymiad parhaus*
   *c) datblygu dull o gydweithio ar lefel consortia rhanbarthol neu genedlaethol i ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn y tymor canol (3-5 mlynedd), a hyn yn cael ei hwyluso gan gorff a gefnogir gan Lywodraeth Cymru ac a fydd yn derbyn cyllid addas*
   *d) gweithio tuag at nod terfynol o greu gwasanaeth llyfrgelloedd i Gymru a gyd-drefnir yn genedlaethol.*

### *Cyfraniad Posibl i Ddarpariaeth Strategol*

17. Roedd yr *Adolygiad Arbenigol* yn pwysleisio rôl llyfrgelloedd cyhoeddus fel canolfannau diwylliannol ac addysgol sy'n ganolog i'n cymunedau. Mae rôl bwysig llyfrgelloedd cyhoeddus o ran mynediad am ddim i adnoddau yn fwy byth mewn cyfnod o gyni wrth i deuluoedd ac unigolion wynebu heriau cynyddol. Mae angen mynediad i wybodaeth ddiduedd, adnoddau a chymorth o ansawdd ar bobl, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau deallus, gan gynnwys cymorth ymarferol i helpu pobl i fynd yn ôl i'r gwaith a gwella ansawdd eu bywyd. Mewn arolwg diweddar a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Carnegie UK, dywedodd 76% o bobl

Cymru fod llyfrgell yn hanfodol neu'n bwysig iawn i'w cymuned[3].

18. Yn *Speaking Volumes: the impact of public libraries on wellbeing project* a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth Carnegie UK[4], nodir manteision gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus i fywydau pobl. Mae annog plant i ymweld â'u llyfrgelloedd lleol o oedran ifanc a mwynhau darllen yn cael effaith hirdymor:

> *"Reading for pleasure is a more important indicator of future success than any socio-economic factor. Research for the Institute of Education at the University of London found that children who read for pleasure made more progress in maths, vocabulary and spelling between the ages of 10 and 16 than those who rarely read. Reading for pleasure was found to be more important for children's cognitive development between ages 10 and 16 than their parents' level of education. The combined effect on children's progress of reading books often, going to the library regularly and reading newspapers at 16 was four times greater than the advantage children gained from having a parent with a degree".*[5]

19. Yn 2002, cyflwynodd Rhwydwaith y Bobl (a ariennir gan y Loteri Genedlaethol) yr arfer o roi mynediad am ddim i gyfrifiaduron, meddalwedd a rhyngrwyd band eang mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ledled Cymru. Ers hynny, mae llyfrgelloedd cyhoeddus wedi bod ar flaen y gad o ran hyrwyddo cynhwysiant digidol. Maent yn cynnig mynediad am ddim i'r nifer cynyddol o wasanaethau cyhoeddus a ddarperir ar-lein yn bennaf ac mae llyfrgelloedd cyhoeddus hefyd yn datblygu sgiliau pobl i ddefnyddio gwybodaeth er mwyn sicrhau y gallant elwa ar y gwasanaethau hyn. Mae gallu cael mynediad i wasanaethau fel Credyd Cynhwysol a Paru Swyddi Ar-lein a gallu eu defnyddio yn hollbwysig i fywydau pobl dlawd a'r rheini sy'n agored i niwed yn ein cymunedau.

> *"There is increasing social exclusion - the information society is a challenge for people without the necessary skills".*
> (Roly Keating, Prif Weithredwr, British Library)

20. Mae Cathryn Marcus, Cyfarwyddwr Prosiect Cynhwysiant Digidol Cymunedau 2.0, wedi tynnu sylw at rôl llyfrgelloedd cyhoeddus o ran hyrwyddo cynhwysiant digidol a threchu tlodi:

> *"Ledled Cymru, llyfrgelloedd yw asgwrn cefn y ddarpariaeth ryngrwyd i'r rheini na allant fforddio band eang yn eu cartrefi eu hunain. A'r dyddiau yma, y rhyngrwyd yw un o'r ffyrdd gorau o ddianc rhag tlodi. Allwch chi ddim chwilio am waith oni bai eich bod ar-lein; os ydych ar-lein, mae gwefannau ar gael i'ch helpu i arbed arian; mae siopa ar-lein yn rhatach; gallwch gysylltu â'ch perthnasau drwy 'skype'*


[3] Ymddiriedolaeth Carnegie UK. (2012). *A New Chapter: Public Libraries in the 21st Century.* Ewch i: http://carnegieuktrust.org.uk/publications/2012/a-new-chapter

[4] Ymddiriedolaeth Carnegie UK. (2014). *Speaking Volumes: the impact of public libraries on wellbeing project.* Ewch i: http://tinyurl.com/pndczc3

[5] Sullivan, A a Brown, M. (2013). *Reading for Change – Performance and Engagement Across Countries*: *Results from PISA 2000,* OECD 2002. UCL. Ewch i: http://www.ioe.ac.uk/newsEvents/89938.html


*am ddim.*

*Trechu tlodi? Mae ein llyfrgelloedd yn gwneud hyn bob dydd. Pe na bydden nhw yno, byddai'n rhaid inni eu dyfeisio."*[6]




21. Yn ôl ystadegau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, o gymharu 2012-13 a 2013-14 mae'r niferoedd sy'n ymweld â llyfrgelloedd yn gorfforol wedi parhau'r un fath neu wedi gostwng ychydig. Yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad bach yn nifer y mannau gwasanaeth sydd gan lyfrgelloedd cyhoeddus ac mae'r arian sy'n cael ei wario y pen ar lyfrgelloedd cyhoeddus wedi aros yr un fath. Mae effaith y pwysau ariannol ar wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus i'w gweld yn nata Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2014/15 sy'n cadarnhau bod gwasanaethau a oedd yn arfer perfformio'n dda yn dioddef yn sgil cyllidebau llai. Fodd bynnag, o gymharu â gwledydd eraill y DU, mae buddsoddiad strategol gan Lywodraeth Cymru, gan gydweithio ag awdurdodau lleol, wedi sicrhau bod lefel y defnydd a'r nifer sy'n defnyddio llyfrgelloedd wedi'i gynnal, i raddau helaeth, dros y blynyddoedd diwethaf.

[6] Cymunedau 2.0. (2013).(http://tinyurl.com/plqovq5) Dim ar gael bellach.




***Pwysigrwydd Datblygu'r Gweithlu***

22. Mae mwy na hanner cyllid llyfrgelloedd cyhoeddus yn cael ei wario ar staff. Mae ystadegau llyfrgelloedd y DU yn dangos bod tua 60% o wariant refeniw llyfrgelloedd cyhoeddus yn mynd ar gostau staffio ac mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn cael y gwerth mwyaf o'r buddsoddiad sylweddol hwn. Yn ôl ymchwil a wnaed gan Twelfth Man wrth ddatblygu *Strategaeth Farchnata Genedlaethol (2006-2011)*[7]ar gyfer llyfrgelloedd Cymru, *staff yw'r un elfen fwyaf hollbwysig ym mhrofiad defnyddwyr llyfrgelloedd.*

23. Amlinellodd yr Adolygiad Arbenigol nifer o faterion hanesyddol ychwanegol ac effeithiau newidiadau diweddar ar staff a strwythurau staffio, gan gynnwys:

- *Yn sgil ad-drefnu llywodraeth leol ym1996, gan greu awdurdodau llai, gwelwyd symudiad cyffredinol oddi wrth gyflogi staff arbenigol sy'n cynnig arbenigedd eang yn eu meysydd, tuag at fwy o gyffredinoli lle disgwylir i aelodau staff unigol gwmpasu nifer o feysydd arbenigol*
- *Mae strwythur staffio llyfrgelloedd cyhoeddus mewn awdurdodau lleol wedi dod yn fwyfwy fflat o ganlyniad i ailstrwythuro staffio, gan arwain at:*
- *ddiffyg cyfleoedd i lyfrgellwyr gael dyrchafiad a llai o gyfle i ddatblygu arweinwyr y dyfodol;*
- *pobl newydd yn gweld proffesiwn llyfrgellwyr yn llai deniadol o'i gymharu â phroffesiynau eraill;*
- *datsgilio swyddi proffesiynol.*

24. O greu llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned sy'n cael eu staffio gan wirfoddolwyr, ac

7 Twelfth Man. (2005). *Strategaeth Farchnata Genedlaethol (2006-2011)*. Ewch i: Yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD)

os nad yw'r berthynas â'r awdurdod lleol wedi'i diffinio'n glir, efallai fydd gan llyfrgelloedd llai staff profiadol â sgiliau i helpu'r cyhoedd.

25. Yn ôl adroddiad dadansoddol cyffredinol diweddaraf Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru,[8] dim ond pump o'r 22 o awdurdodau llyfrgelloedd a fodlonodd y safon o ran staff yn 2013-14. Wrth i gyllid llyfrgelloedd cyhoeddus grebachu, gan arwain at ddiddymu swyddi yn annisgwyl, mae yna brinder sgiliau yn ymddangos mewn rhai awdurdodau lleol. Bydd yn rhaid i unrhyw fodel gwasanaeth newydd ymateb i'r angen am gynllun cryf ar gyfer y gweithlu sy'n dal gafael ar sgiliau proffesiynol ac yn cynnig llwybrau datblygu galwedigaethol.

***Effaith Moderneiddio Llyfrgelloedd Cyhoeddus***

26. Mae tystiolaeth o raglen Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at effaith moderneiddio adeiladau llyfrgelloedd ar gydleoli gwasanaethau, ymweliadau a benthyciadau:
    - Pen-y-bont ar Ogwr: cynnydd o 39% yn nifer y llyfrau plant a gyhoeddwyd ar ôl ailagor y llyfrgell;
    - Canolfan Caerau a Threlái: mae'n darparu amryw o wasanaethau'r cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill mewn amgylchedd modern a deniadol;
    - Prestatyn: enghraifft wych o greu canolfan gymunedol fywiog ar safle hyblyg. Mae hyn yn golygu bod modd darparu gwasanaethau o bob math drwy'r llyfrgell, ee Canolfannau Cyngor ar Bopeth;
    - Caerffili: Yn ystod y mis cyntaf ar ôl i'r llyfrgell newydd agor, cafwyd bron i 20,000 o ymweliadau (o gymharu â bron i 7,000 y mis yn yr hen lyfrgell);
    - Pontycymer: Yn sgil symud y llyfrgell i'r ganolfan hamdden, mae nawr ar agor 17 awr yr wythnos yn fwy nag o'r blaen. Bellach mae ar agor am 61.5 o oriau'r wythnos.

27. Dau o brif lwyddiannau Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol yw denu mwy o blant i lyfrgelloedd a chreu gofod hyblyg a deniadol i gynyddu nifer y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno. Yn benodol, mae'r llyfrgelloedd newydd yn denu partneriaid newydd, fel Dechrau'n Deg, i ddefnyddio'r cyfleusterau i roi gwybodaeth a darparu gwasanaethau diwylliannol ac addysgol. Mae'r bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, i gyflwyno pob plentyn Blwyddyn 4 i lyfrgell erbyn 2016, yn sail i ysgolion a gwasanaethau llyfrgelloedd gydweithio er mwyn codi lefelau llythrennedd.

28. Mae'r dystiolaeth o'r sector Addysg Uwch yn ategu'r ffaith bod yna angen o hyd am ofod llyfrgell go iawn. Yn 2013, enillodd Llyfrgell McClay, Prifysgol Queens, Belfast Wobr Ddylunio SCONUL (Cymdeithas Llyfrgelloedd Coleg, Cenedlaethol a Phrifysgol). Fodd bynnag, ers iddi agor, bu angen mwy o leoedd i ddarllen/astudio a lleoedd i grwpiau/gofod cydweithredol er gwaethaf cynnydd yn y defnydd o wasanaethau ar-lein a'r lefel uchel o gyfleusterau hunanwasanaeth. Mae hyn wedi golygu adleoli rhai ardaloedd staff i adeiladau eraill er mwyn cynyddu'r llefydd sydd

[8] Llywodraeth Cymru. (2014). *Dadansoddiad a throsolwg o berfformiadau awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru*. Ewch i: http://gov.wales/docs/drah/publications/141209framework4-report-cy.pdf

yna i astudio.

29. Mae ymchwil a wnaed ar gyfer Archives, Libraries and Museums Alliance UK (ALMA-UK) yn tanlinellu gwerth buddsoddi arian mewn llyfrgelloedd cyhoeddus. Roedd eu hadroddiad[9] yn dangos:

- *bod defnyddwyr llyfrgelloedd yn rhoi'r gwerth canlynol ar wasanaethau llyfrgelloedd fesul ymweliad: £24.10 yn yr Alban; £26.38 yng Nghymru; a £27.27 yng Ngogledd Iwerddon.*
- *yn 2012-13 roedd y llyfrgelloedd yn cynnal 1,296 o swyddi yn yr Alban, 596 yng Nghymru a 327 yng Ngogledd Iwerddon ar wahân i'r rheini a oedd yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y gwasanaeth* (roedd 1,168.8 yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yng Nghymru).
- *am bob £1 sy'n cael ei wario ar ddarparu'r gwasanaeth* (yng Nghymru), *caiff 57 ceiniog ei greu mewn cadwyni cyflenwi lleol drwy wariant ar nwyddau a gwasanaethau lleol*.

[9] Archives, Libraries and Museums Alliance UK. (2014). *The Report on the Economic Value of Library Services*. Ewch i: http://tinyurl.com/q4fc7bj

# III. Y Model Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus Presennol

30. Ar hyn o bryd mae 22 o awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, a'r awdurdod lleol ei hun yn bennaf sy'n darparu'r gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus. Caiff tua 250 o fannau gwasanaeth llyfrgelloedd eu cynnal drwy llyfrgell teithioll ychwanegol, yn benodol ar gyfer y rheini sy'n gaeth i'r tŷ. Hyd yn hyn, mae dau awdurdod lleol wedi trosglwyddo eu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus i ymddiriedolaethau. Fodd bynnag, mae nifer o awdurdodau lleol wrthi'n adolygu eu gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus gyda'r nod o ffurfio ymddiriedolaethau i reoli gwasanaethau.

31. Mae pedwar awdurdod lleol yng Nghymru wedi trosglwyddo tua 13 o lyfrgelloedd bach i'r gymuned leol i osgoi eu cau. Gwirfoddolwyr yn bennaf yw'r staff. Mae hyn wedi codi cwestiwn ynghylch a ddylid cynnwys llyfrgelloedd mor fach a reolir gan y gymuned yn narpariaeth statudol gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch a ddylai llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned fod yn rhan o'r ddarpariaeth statudol ar sail hawliau craidd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru - *Canllawiau ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru*[10].

### *Dyletswydd Statudol*

32. O dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964[11] mae'n ddyletswydd statudol ar bob awdurdod llyfrgelloedd (awdurdodau lleol) yng Nghymru i “ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sydd am ei ddefnyddio”. Mae'r cyfrifoldeb dros weithredu'r Ddeddf yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru ac, ar hyn o bryd, dyletswydd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yw “goruchwylio a hyrwyddo'r” gwaith o wella gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

33. Ers 2002, mae Llywodraeth Cymru wedi gweinyddu Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (y Safonau) mewn fframweithiau tair blynedd. Mae'r Safonau yn monitro darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yr awdurdod lleol fel rhan o ofyniad statudol y Gweinidog i oruchwylio llyfrgelloedd cyhoeddus. Yn ôl yr adolygiad diweddaraf o lefelau cydymffurfio awdurdodau lleol â'r Safonau, yn 2013-14 roedd awdurdodau, ar gyfartaledd, yn cyrraedd 6.5 o 9 ohonynt; y nifer uchaf oedd 9 a'r isaf oedd 4.

34. Ers 2005, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi Strategaeth Datblygu Llyfrgelloedd genedlaethol ar waith mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, addysg uwch, addysg bellach a llyfrgelloedd iechyd. Dyma flaenoriaethau strategaeth gyfredol

10 Llywodraeth Cymru. (2015). *Canllawiau ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru*. Ewch i: http://gov.wales/docs/drah/publications/150522community-managed-libraries-cy.pdf

11 Llyfrfa Ei Mawrhydi. (1964). *Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.* Ewch i: http://www.legislation.gov.uk/wsi/1964/75/contents/made/1964/75

*Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli*:

- cydweithio i adolygu modelau cyfredol o ddarparu gwasanaethau mewn ymateb i'r hinsawdd economaidd bresennol, a datblygu modelau newydd arloesol;
- datblygu'r cydweithio wrth gaffael a gwella mynediad at adnoddau, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein fel e-lyfrau;
- moderneiddio adeiladaullyfrgelloedd cyhoeddus er mwyn cwrdd ag anghenion defnyddwyr;
- cynyddu cyfraniad llyfrgelloedd wrth ddatblygu sgiliau pobl i'w helpu i wireddu eu potensial, lleihau anghydraddoldeb a gwella lles economaidd a chymdeithasol;
- buddsoddi mewn datblygu sgiliau staff llyfrgelloedd;
- gweithredu rhaglen datblygu cynulleidfaoedd ledled Cymru i gyfoethogi bywydau unigolion a chymunedau ac
- sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu trwy gynlluniau fel Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

***Arolygon Diweddar ymhlith Defnyddwyr a'r Rheini nad ydynt yn Ddefnyddwyr***

35. Cynhaliwyd yr arolwg cynhwysfawr diweddaraf o ddefnyddwyr llyfrgelloedd a'r rheini nad ydynt yn eu defnyddio gan IPSOS Mori ar ran Ymddiriedolaeth Carnegie UK. Cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwil, sef *A New Chapter - Public Library Services in the 21st Century,*[12] yn 2012. Roedd yr adroddiad hwn yn adolygu'r sefyllfa yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon ac mae'n gyfeirbwynt defnyddiol gan iddo gael ei gynnal mewn ffordd gyson ym mhob gwlad. Holwyd 1,018 o oedolion 16 oed a throsodd yng Nghymru.

36. Lluniodd Ymddiriedolaeth Carnegie UK daflen gryno o ddata Cymru (sydd ar gael ar-lein) ar agweddau at y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus ac ar y defnydd ohono[13]. Roedd canlyniadau Cymru yn dangos:

- bod dros dri chwarter (77%) o bobl Cymru yn dweud bod llyfrgelloedd yn bwysig iawn neu'n hanfodol i'w cymuned;
- bod 45% o'r rheini a holwyd wedi defnyddio llyfrgell gyhoeddus yn ystod y 12 mis blaenorol;
- bod y rheini sy'n defnyddio'r llyfrgell yn aml yn fwy tebygol o fod â gwaith rhan-amser, ddim yn gweithio o gwbl neu wedi ymddeol;
- er gwaethaf y ffaith mai'r rheini yng ngrŵp cymdeithasol E oedd leiaf tebygol o fod wedi ymweld â llyfrgell yn ystod y 12 mis diwethaf, mai'r rheini oedd wedi gwneud hynny oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn ymweld â'u llyfrgell leol o leiaf unwaith yr wythnos (30%), lle mai'r rheini yng ngrwpiau cymdeithasol A, B ac C oedd leiaf tebygol o fod wedi ymweld o

[12] Ymddiriedolaeth Carnegie UK. (2012). *A New Chapter: Public library services in the 21st century*. Ewch i: http://carnegieuktrust.org.uk/publications/2012/a-new-chapter

[13] Ymddiriedolaeth Carnegie UK. (2012).*A New Chapter: Public library services in the 21st century – Welsh data about attitudes to and use of public libraries*. Ewch i: http://carnegieuktrust.org.uk/publications/2012/a-new-chapter---wales-factsheet

leiaf unwaith yr wythnos (18% ac 17% yn y drefn honno) a

- bod yna berthynas gadarnhaol, ystadegol bwysig rhwng pa mor aml y mae rhywun mewn tref yng Nghymru yn defnyddio'r llyfrgell a faint mae'n ei ddarllen.

***Y sefyllfa yn 2015***

37. Mae'r pwysau cyllidebol ar awdurdodau lleol yn cynyddu ac mae'n hynod debygol y caiff cyllidebau gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus eu torri'n sylweddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-2017. Ymhlith yr effeithiau tebygol mae
    - cau nifer sylweddol o lyfrgelloedd
    - cynnydd yn nifer y llyfrgelloedd llai a gaiff eu trosglwyddo i'w reoli gan y gymuned, gan arwain at lefelau darpariaeth amrywiol
    - parhau i drosglwyddo gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol i ymddiriedolaethau
    - gostyngiad yn nifer y staff a gaiff eu talu, yn enwedig staff â chymwysterau proffesiynol
    - gostyngiad yn y gwariant ar adnoddau fel llyfrau ac adnoddau amlgyfrwng
    - bydd yn gynyddol anodd i awdurdodau lleol gynnal eu perfformiad yn erbyn y Safonau.

38. Mae'r sefyllfa bresennol, felly, yn awgrymu y dylid ystyried dull gweithredu newydd sy'n gwneud defnydd gwell o adnoddau ariannol sy'n crebachu er mwyn cynnal gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus o ansawdd yng Nghymru a fydd yn hyblyg wrth i ofynion defnyddwyr newid.

# IV. Gosod y Sylfaen ar gyfer y Dyfodol

***Tueddiadau Demograffig ac Economaidd***

39. Wrth ystyried modelau newydd o wasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus ar gyfer y dyfodol, mae angen ystyried yr hyn sy'n debygol o fod yn ofynnol ganddynt. Yn *Deall Dyfodol Cymru,* amlinellir y prif ffactorau demograffig a chymdeithasol-economaidd a allai ddylanwadu ar ofynion defnyddwyr a gwasanaethau yn y dyfodol.[14]

40. Disgwylir i boblogaeth Cymru gynyddu i 3.19 miliwn erbyn 2022 o 3.06 (2011). Yn gyffredinol, mae disgwyl i niferoedd plant a phobl 65 oed a throsodd gynyddu 2% a 50% yn y drefn honno rhwng 2012 a 2037. Rhagwelir y bydd y nifer rhwng 16 a 64 oed yn lleihau 3% yn ystod yr un cyfnod. Mae'r tueddiadau hyn yn tanlinellu'r angen i barhau i ddatblygu gwasanaethau plant a chyfrannu at iechyd a lles y rheini sydd dros 65 oed, a'u hannog i ddefnyddio'u hamser hamdden mewn ffordd gadarnhaol. Yn draddodiadol, mae'r ddau grŵp oedran yn gwneud defnydd helaeth o lyfrgelloedd cyhoeddus.

***Diwallu Anghenion Pobl***

41. Yn sylfaenol i unrhyw fodel gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus newydd ar gyfer y 21ain ganrif fydd ei greu ar sail anghenion pobl a cheisio gwella eu sefyllfa gymdeithasol, ddiwylliannol, addysgol ac economaidd. Roedd arolygon ac ymchwil ddiweddar yn pwysleisio bod pobl yn dal i fod eisiau i lyfrgelloedd cyhoeddus ddarparu:
    - mynediad lleol am ddim i adnoddau a gwybodaeth ar ffurfiau amrywiol er mwyn diwallu anghenion amrywiol y cyhoedd
    - safle diogel a niwtral yng nghanol y gymuned
    - staff gwybodus i helpu defnyddwyr
    - amrywiaeth o weithgareddau am ddim mewn llyfrgelloedd ac yn y cymunedau
    - lle i gael mynediad i wasanaethau eraill

42. Cynhaliwyd arolwg gan Scotinform fel rhan o werthusiad annibynnol o *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli*, ac roedd 82% o'r ymatebwyr yn defnyddio'r llyfrgell i gael benthyg llyfrau. Mae hyn yn pwysleisio un o'r heriau sy'n wynebu llyfrgelloedd cyhoeddus, sef cydbwyso'r galwadau cyfnewidiol rhwng adnoddau print ac electronig.
.
43. Y duedd/newid mawr yn y degawd diwethaf oedd darparu caledwedd gyfrifiadurol, band eang a mynediad i ryngrwyd Wi-Fi. Yr un mor bwysig i ddarparu mynediad i'r gwasanaethau hyn yw'r angen i ddatblygu sgiliau TGCh pobl er mwyn iddynt gael manteisio'n llawn ar gyfleusterau ar-lein. Yn ogystal â rhoi her i'r llyfrgelloedd cyhoeddus wrth i fwy o bobl fod eisiau mynediad i wybodaeth ac adnoddau ar-lein, mae'r duedd hon hefyd yn creu cyfleoedd i lyfrgelloedd:

---

14 Llywodraeth Cymru. (2012). *Deall Dyfodol Cymru*. Ewch i: http://tinyurl.com/pfuqcb5

- Mae rôl staff llyfrgelloedd yn parhau fel rhai sy'n gallu helpu'r cyhoedd i gael gafael ar wybodaeth ar-lein.
- Mae gwasanaethau cyhoeddus fel Paru Swyddi Ar-lein a Chredyd Cynhwysol wedi tynnu sylw at y rôl sy'n dal i fod gan lyfrgelloedd cyhoeddus i ddatblygu sgiliau TGCh pobl, eu helpu i gael gafael ar wasanaethau a mynd i'r afael â'r ffaith bod yna rai pobl sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol.
- Cydgysylltu'r amrywiaeth o e-wasanaethau a ddarperir gan lyfrgelloedd cyhoeddus yn arlwy digidol unedig a deniadol.
- Mae cyfryngau cymdeithasol yn gyfle rhad, sy'n targedu grwpiau penodol, i farchnata gwasanaethau llyfrgell gyhoeddus.
- Y gallu i greu cymunedau ar-lein fel grwpiau darllen.
- Gall llyfrgell gyhoeddus greu a chyhoeddi ei hadnoddau gwybodaeth ei hun.

44. Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru wedi ymateb i ddyfodiad gwasanaethau ar-lein drwy gyflwyno ystod o adnoddau sydd wedi'u cydgysylltu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, gyda chymorth awdurdodau lleol, yn benodol Castell-nedd Port Talbot. Maent yn cynnwys papurau newydd ar-lein, adnoddau cyfeirio a hanes teuluol, e-lyfrau, e-gylchgronau ac e-lyfrau llafar. Er bod disgwyl i'r defnydd o wasanaethau ar-lein barhau i gynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd i ddod, yn sgil cyflwyno gwasanaethau newydd a mwy o fynediad i dechnoleg symudol, mae'n debygol mai cael benthyg llyfrau go iawn, defnyddio cyfrifiaduron, mynd i weithgareddau a chael gwybodaeth fydd y prif resymau, yn dal i fod, dros ymweld â llyfrgelloedd cyhoeddus.

45. Mae arolwg defnyddwyr Ymddiriedolaeth Carnegie UK yn nodi mai'r pedwar ffactor a oedd fwyaf tebygol o gynyddu eu defnydd o'r gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru oedd:
    - Gwell gwybodaeth am wasanaethau
    - Gallu archebu llyfrau ar-lein
    - Gwella ystod ac ansawdd y llyfrau
    - Darparu gwasanaethau eraill y cyngor mewn adeiladau llyfrgelloedd.

46. Roedd ymchwil a gomisiynwyd gan Archives, Libraries, Museums Alliance UK yn dangos bod 55% o ddefnyddwyr llyfrgelloedd cyhoeddus yn cerdded i'w llyfrgell leol ac nad yw 65% yn gwario o gwbl ar deithio yno. Mae'r ystyriaeth hon yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd difreintiedig lle mae'r gallu i deithio/costau teithio i'w llyfrgell gyhoeddus agosaf yn ffactorau pwysig.

47. Mae cyfleusterau hunanwasanaeth newydd yn creu cyfleoedd i symleiddio gwasanaethau llyfrau. Mae hyn yn elfen bwysig o dechnoleg hunanwasanaeth ddiweddaraf Libraries NI yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn yn ganolog i fenter Llyfrgelloedd Agored yn Nenmarc i'w gwneud yn bosibl i'r cyhoedd gael defnyddio llyfrgell y tu allan i oriau agor arferol, menter sydd nawr yn cael ei threialu yng Ngweriniaeth Iwerddon hefyd.

### *Gweithlu'r Llyfrgell - Rolau'n Newid*

48. Mae'r newidiadau a amlinellir uchod a'r amrywiaeth newydd o sgiliau a fydd yn ofynnol gan staff yn y dyfodol, wrth i wasanaethau ddatblygu, yn her wirioneddol o ran datblygu gweithlu brwdfrydig a medrus i ddarparu llyfrgell gyhoeddus y dyfodol. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, a hefyd i baratoi ar gyfer ailstrwythuro llywodraeth leol, sy'n debygol yn sgil argymhellion adroddiad y Comisiwn, mae angen cynllun newydd i ddatblygu'r gweithlu. Mae Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru wedi'i chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun manwl erbyn Rhagfyr 2015 a fydd yn cynnwys:
    - llwybr gyrfa clir
    - sicrhau bod cyrsiau hyfforddi perthnasol (galwedigaethol ac academaidd) ar gael er mwyn gallu ennill cymwysterau priodol ar unrhyw adeg yn ystod gyrfa
    - rhaglen barhaus o ddigwyddiadau hyfforddi
    - hyfforddiant arwain a rheoli ar gyfer rheolwyr llyfrgelloedd
    - cymorth ariannol drwy fwrsariaethau i gwblhau cyrsiau hyfforddi.

### *Cydleoli Gwasanaethau a Rhannu Adeiladau*

49. O ddadansoddi'r tueddiadau, rhagwelir y bydd gan adeiladau llyfrgelloedd cyhoeddus rôl barhaus, sy'n datblygu, fel canolfannau cymunedol creadigol, diwylliannol ac addysgol. O ganlyniad:
    - Bydd angen i'r tu mewn i lyfrgelloedd fod yn gynyddol hyblyg gydag ardaloedd lle gellir cynnal rhaglen eang o weithgareddau, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.
    - Mae yna duedd gynyddol i gydleoli gwasanaethau cyhoeddus eraill ochr yn ochr â gwasanaethau llyfrgelloedd ar safle cyffredin.
    - Bydd yn dal i fod angen i lyfrgelloedd ddarparu ardal astudio dawel i unigolion a grwpiau gael astudio.

50. Yn ôl ymchwil Carnegie, darparu gwasanaethau eraill y cyngor mewn adeiladau llyfrgelloedd oedd un o'r pedwar prif ffactor a fyddai'n annog pobl i ymweld â'u llyfrgell ac mae'n awgrymu'n gryf yr angen i gydleoli cyfleusterau. Mae rhaglen Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol Llywodraeth Cymru wedi bod yn ganolog wrth hyrwyddo'r arfer o gydleoli gwasanaethau ac mae'r rhaglen yn allweddol wrth inni barhau i weddnewid adeiladau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Hyd yn hyn, mae'r rhaglen wedi helpu i foderneiddio rhyw 100 o'r tua 250 o fannau gwasanaeth mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

### *Llyfrgelloedd Bach a Reolir gan y Gymuned*

51. Mae adroddiad o'r enw *Llyfrgelloedd Cymunedol a Llyfrgelloedd Ymddiriedolaethau Annibynnol*[15] a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015 wedi'i lunio gan yr

---

15 Roberts, D Hywel E. (2015). *Llyfrgelloedd Cymunedol a Llyfrgelloedd Ymddiriedolaethau Annibynnol yng Nghymru*. Ewch i: http://gov.wales/docs/drah/publications/150211-independent-trusts-community-libraries-cy.pdf

Athro Hywel Roberts. Roedd yr adroddiad hwn yn amlinellu profiad awdurdodau lleol Conwy, Castell-nedd Port Talbot, Ceredigion a Rhondda Cynon Taf wrth sefydlu llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned mewn safleoedd bach a oedd yn wynebu cael eu cau. Roedd yr adroddiad yn nodi'r prif elfennau wrth reoli'r berthynas rhwng y llyfrgell a reolir gan y gymuned a'r awdurdod lleol, gan gynnwys darparu'r stoc llyfrau, cymorth TGCh a chymorth proffesiynol.

52. Astudiaeth yr Athro Roberts oedd y sail i ganllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar[16] gan Lywodraeth Cymru ynghylch a ddylai llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned fod yn rhan o'r ddarpariaeth statudol ar sail hawliau craidd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Derbyniwyd y canllawiau hyn gan CLlLC fel ffordd o sicrhau cysondeb ledled Cymru (*Canllawiau ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru, 2015).*

[16] Llywodraeth Cymru. (2015). *Canllawiau ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru.* Ewch i: http://gov.wales/docs/drah/publications/150522community-managed-libraries-cy.pdf

# V. Dull Gweithredu Newydd ar gyfer Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

***Beth ddylai gael ei gyflawni?***

53. Ledled Cymru, mae pobl yn disgwyl gallu cael mynediad at wasanaethau cymunedol, ac mae ganddynt hawl i gael y mynediad hwnnw. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y dull seiliedig ar ganlyniadau a fabwysiadwyd ar gyfer pumed fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, *Llyfrgelloedd yn Gwneud Gwahaniaeth (2014-2017)*[17]. Bydd llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru'n bodloni'r 18 Hawl Craidd, sy'n cynnwys:
    - darparu gwasanaethau gan staff cyfeillgar, gwybodus a chymwys
    - darparu amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi dysgu a mwynhad ac yn galluogi defnyddwyr i gael y budd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael
    - darparu mynediad at ystod o wasanaethau ac adnoddau i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, a chyfranogiad cymunedol mewn amrywiaeth eang o fformatau, gan gynnwys rhai yn y Gymraeg
    - yn rhad ac am ddim i ymuno â hwy ac ar agor i holl aelodau eu cymunedau
    - darparu lle diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas
    - darparu adnoddau gwybodaeth i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig
    - benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys mynediad i adnoddau gwybodaeth ar-lein 24 awr y dydd
    - darparu defnydd am ddim o'r Rhyngrwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys gwasanaeth diwifr ac yn galluogi defnyddwyr i wneud un chwiliad ar-lein drwy holl adnoddau llyfrgelloedd Cymru
    - hyrwyddo llyfrgelloedd er mwyn denu rhagor o bobl i elwa ar eu gwasanaethau ac yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth ynglŷn â sut y mae eu hanghenion yn newid
    - gweithio mewn partneriaeth i agor mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru
    - darparu proses gwyno sy'n glir, yn amserol ac yn dryloyw ar gyfer adegau pan fo rhywbeth yn mynd o'i le.

      (Gweler Atodiad 1 am y rhestr gyflawn.)

***Rhwydwaith Cynaliadwy o Ganolfannau Cymunedol Lleol Amlwasanaeth***

54. Fodd bynnag, mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn tueddu fwyfwy i gyflawni eu gwasanaethau mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Felly, wrth symud i unrhyw fodel newydd, dylid rheoli llyfrgelloedd cyhoeddus fel canolfannau cymunedol lle mae amrywiaeth o wasanaethau cymunedol ar gael mewn un lleoliad. Yn ei adroddiad, *Llyfrgelloedd Cymunedol a Llyfrgelloedd Ymddiriedolaethau Annibynnol yng Nghymru*, dywedodd yr Athro Roberts,

---

[17] Llywodraeth Cymru. (2014). *Llyfrgelloedd yn Gwneud Gwahaniaeth*. Ewch i: http://gov.wales/docs/drah/publications/140425wpls5cy.pdf

*..."byddai dadansoddiad gwrthrychol yn awgrymu nad yw patrwm darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus wir wedi mynd drwy broses ailarfarnu neu resymoli radical a phriodol mewn sawl ardal ers ad-drefnu llywodraeth leol ym 1974 a 1996. Bryd hynny cafodd awdurdodau llyfrgell annibynnol eu cyfuno neu eu hailddosbarthu, gan felly greu sefyllfa lle roedd mannau gwasanaeth llyfrgell a oedd gynt dan reolaeth sawl awdurdod llyfrgell weithiau yn agos iawn at ei gilydd a'u dalgylchoedd yn gorgyffwrdd. Nid oedd rhai agweddau ar y ddarpariaeth, yn enwedig lleoliad mannau gwasanaeth sefydlog, wedi ymateb i newidiadau demograffig wrth iddynt ddigwydd o fewn cymunedau a rhyngddynt".*

55. Ar hyn o bryd mae'r rhwydwaith llyfrgelloedd cyhoeddus lleol yn cael ei hadolygu gan awdurdodau lleol ar draws Cymru gan ddefnyddio amrywiaeth o feini prawf. Bydd hyn yn arwain at lefelau darpariaeth sy'n fwyfwy anghyson â'i gilydd. Wrth ddatblygu model newydd ar gyfer darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, mae'n hanfodol bod y penderfyniad i ddarparu canolfan gymunedol amlwasanaeth yn cael ei seilio ar ddadansoddiad clir o anghenion a meini prawf. Datblygodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili un o'r modelau mwyaf llwyddiannus yng Nghymru, a'i fabwysiadu'n rhan o'i strategaeth llyfrgelloedd. Defnyddiodd Caerffili'r meini prawf canlynol i nodi'r math o lyfrgell ac adnoddau y byddai'r cyngor yn eu darparu i'r gymuned. Roedd y meini prawf yn cynnwys:

- Poblogaeth
- Amddifadedd
- Patrymau demograffig allweddol wedi'u seilio ar grwpiau oedran 0-14, 16-19 a rhai dros 60
- Perfformiad canghennau llyfrgell wedi'i seilio ar nifer yr ymweliadau a benthyciadau fesul awr.

56. Defnyddiwyd fformiwla wedi'i seilio ar y meini prawf uchod i gyfrifo sgôr cyffredinol wedi'i bwysoli a oedd yn nodi band/haen ar gyfer y llyfrgell. Defnyddiodd Caerffili y 4 band canlynol i amlinellu'r gwahanol fathau o ddarpariaeth llyfrgell.

| **Categori'r Llyfrgell** | **Cyfleusterau** |
|---|---|
| **Porthol / Canolfan** | • Poblogaeth dros 14,000<br>• Y llyfrgell wedi'i lleoli mewn prif ganolfan siopa<br>• Arwynebedd llawr mewn metrau sgwâr (400m$^2$ i 1000m$^2$)<br>• Siop goffi neu beiriannau gwerthu diodydd a byrbrydau<br>• O leiaf 25,000 o eitemau o stoc mewn amrywiaeth eang o fformatau. Yn cynnwys casgliadau arbenigol, ee - Hanes Teuluol, Hanes Lleol, Iechyd a Lles, setiau o lyfrau ar gyfer Grwpiau Darllen, ac adnoddau ar gyfer Ysgolion/Gwaith Cartref<br>• O leiaf 20 cyfrifiadur sydd ar gael i'r cyhoedd (darpariaeth bwrpasol ar gyfer dysgwyr, oedolion, plant, a phobl ifanc)<br>• Man chwarae gemau o fewn yr adran Plant a Phobl Ifanc yn |

| | |
|---|---|
| | cynnwys consolau a sgriniau<br>• Gwasanaeth diwifr yn rhad ac am ddim<br>• Pwyntiau hunanwasanaeth ger y mynedfeydd ar y llawr gwaelod<br>• Man ar gyfer cynnal digwyddiadau cymunedol a chelfyddydol<br>• Wedi'i chyd-leoli â Chanolfan Gwasanaethu Cwsmeriaid neu bartner cyffelyb sy'n ymwneud â'r cyhoedd<br>• Ystod eang o wybodaeth, cyswllt i e-lywodraeth. |
| **Llyfrgell Dref** | • Poblogaeth rhwng 8,000 a 14,000<br>• Y llyfrgell wedi'i lleoli yng nghanol y dref<br>• Arwynebedd llawr mewn metrau sgwâr (215m² i 400m²)<br>• Peiriant gwerthu byrbrydau a diodydd<br>• O leiaf 15,000 o eitemau o stoc mewn amrywiaeth eang o fformatau. Yn cynnwys casgliadau sy'n cefnogi ystod eang o ddiddordebau hamdden ac anghenion dysgu - adnoddau ar gyfer Ysgolion/Gwaith Cartref<br>• O leiaf 15 cyfrifiadur sydd ar gael i'r cyhoedd (darpariaeth bwrpasol ar gyfer dysgwyr, oedolion, plant, a phobl ifanc)<br>• Man chwarae gemau o fewn yr adran Plant a Phobl Ifanc yn cynnwys consolau a sgriniau - pan fo cynllun y safle yn caniatáu a bod lle ar gael<br>• Gwasanaeth diwifr yn rhad ac am ddim<br>• Pwyntiau hunanwasanaeth ger y brif fynedfa<br>• Man i gynnal cyfarfodydd cymunedol neu ddigwyddiadau<br>• Wedi'i chyd-leoli â Gwasanaethau Cwsmeriaid neu bartner cyffelyb sy'n ymwneud â'r cyhoedd<br>• Ystod eang o wasanaethau gwybodaeth, cyswllt i e-lywodraeth. |
| **Defnydd ar y cyd / pentref** | **Llyfrgell yn cael ei defnyddio ar y cyd / Llyfrgell Bentref (Dwy is-haen, 4 diwrnod yr wythnos ar gyfer y safleoedd cymunedol mwy eu maint a'r lleill yn gweithredu am 3 diwrnod yr wythnos)**<br>• Poblogaeth rhwng 4,500 a 8,000<br>• Y llyfrgell wedi'i lleoli ger canol y pentref/ mewn ardal siopa<br>• Arwynebedd llawr mewn metrau sgwâr (120m² i 215m²)<br>• Peiriant yn gwerthu diodydd pan fo'n bosibl<br>• O leiaf 5,000 o eitemau o stoc mewn amrywiaeth eang o fformatau. Yn cynnwys casgliadau sy'n cefnogi ystod eang o ddiddordebau hamdden ac anghenion dysgu - adnoddau ar gyfer Ysgolion/Gwaith Cartref<br>• O leiaf 10 cyfrifiadur sydd ar gael i'r cyhoedd<br>• Dewis hunanwasanaeth yn dibynnu ar anghenion lleol ac ar unrhyw ddefnydd arall mae'r gymuned yn ei wneud o'r safle.<br>• Man i gynnal cyfarfodydd cymunedol neu ddigwyddiadau pan fo'n bosibl |

| | |
|---|---|
| | • Wedi'i chyd-leoli â phartneriaid o'r cyngor neu'r gymuned pan fo'n bosibl<br>• Amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth ar bapur ac ar-lein |
| **Cyswllt Cymunedol** | • Poblogaeth o dan 4,500<br>• Y gwasanaeth yn cael ei gyflawni gydag asiantaeth bartner, grŵp gwirfoddol, a/neu'r gymuned leol<br>• Hyblygrwydd o ran nifer y staff, gan ddibynnu ar y cyllid sydd ar gael a'r dewisiadau o ran cyflawni ar y cyd<br>• O leiaf o 5 cyfrifiadur sydd ar gael i'r cyhoedd<br>• Ciosgau hunanwasanaeth ar gael yn rhan o'r ddarpariaeth staff pan fo'n ymarferol<br>• 1,500 i 5,000 o adnoddau ar gael i'w benthyca ac ar gyfer astudio |

57. Mae model fel hwn yn fwy addas ar gyfer ardal drefol a byddai angen ei addasu mewn ardaloedd mwy gwledig, lle mae'r boblogaeth yn llai ac yn fwy gwasgaredig. Ond mae'n ffordd ddefnyddiol o nodi bandiau darpariaeth all fod yn sail i'r ganolfan gymunedol ar gyfer sawl gwasanaeth.

58. Mae model Caerffili yn debyg i fodelau eraill sy'n cael eu defnyddio mewn awdurdodau llyfrgelloedd ledled y DU. Er enghraifft, roedd Dorset yn cynnwys meini prawf ychwanegol fel poblogaeth ethnig a materion sy'n bwysig mewn ardaloedd gwledig fel trafnidiaeth. Mae'r dimensiwn gwledig yn allweddol i lawer o awdurdodau yng Nghymru yn ogystal â gwasanaethau dwyieithog effeithiol a gwasanaethau ar gyfer pobl anabl a'r rheini nad ydynt yn gallu cyrraedd llyfrgelloedd.

59. Mae diffinio cynnig ar gyfer y cyhoedd ar sail fframwaith bandio a luniwyd ar sail proffil y cymunedau wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth fynd ati'n strategol i ddatblygu llyfrgelloedd yng Nghaerffili, a dyna'r enghraifft orau yng Nghymru. Yn ychwanegol at y strategaeth, mae yna gynllun gweithredu cysylltiedig[18] hefyd, sydd wedi arwain at welliannau pwysig yn narpariaeth llyfrgelloedd ardal yr awdurdod lleol. Byddai dull o'r fath o fudd i rannau eraill o Gymru fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynllun ar gyfer model newydd rheoli'r gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus.

[18] Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. (2014). *Cynllun Gweithredu Strategol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd 2014-2017* Ewch i: http://tinyurl.com/qd7a9xt

# VI. Consortia Darpariaeth Ranbarthol neu Ddarpariaeth Genedlaethol?

***Asesu'r Sefyllfa Bresennol: 22 Awdurdod Lleol***

60. Ym mis Ebrill 2015, daeth ymgynghoriad i ben ar Bapur Gwyn gan Lywodraeth Cymru ar ddiwygio gwasanaethau llywodraeth leol. Mewn cysylltiad â hyn, cyhoeddwyd map o awdurdodau lleol newydd posibl ym mis Mehefin 2015 yn amlinellu 8 neu 9 awdurdod lleol yn lle'r 22 sydd gennym ar hyn o bryd.

61. Cynhaliwyd asesiad (gweler y tabl isod) o gryfderau a gwendidau gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus ar sail y 22 awdurdod lleol presennol o ran sicrhau digon o gapasiti a gallu i gefnogi darpariaeth leol.

**Tabl 1: Cryfderau a gwendidau posibl y ddarpariaeth bresennol**

<table>
<tr><td colspan="2">Opsiwn: Cadw'r Ddarpariaeth Bresennol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Amserlen Cyflawni: Ar unwaith</td></tr>
<tr><td>Cryfderau</td><td>Gwendidau</td></tr>
<tr><td>Cyllid: Bydd gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn parhau i gael cyllid awdurdodau lleol. Mae disgwyl i hwnnw leihau yn ystod y 3 blynedd nesaf mewn termau real.<br><br>(Ar sail Mehefin 2014) cyfanswm y gwariant refeniw gros a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn 2014-15 oedd £48.217m neu £16 y pen o'r boblogaeth. Mae hyn yn cymharu â gwariant gros refeniw alldro ar gyfer 2013-14 o £56.877m. (-15.2%). Mae'r gwariant refeniw gros a gyllidebwyd ar gyfer llyfrgelloedd yn 2015-16 yn dangos gostyngiad pellach i £44.521m. (-21.7% o gymharu â ffigurau alldro 2013-14) (Ffynhonnell - StatsCymru)</td><td>Ffynonellau cyllid ac arbedion posibl: Nid oes llawer o gyfleoedd am fuddsoddiadau cyllid untro ac mae'r cyfleoedd i gynyddu incwm yn llai tebygol byth.</td></tr>
<tr><td>Y cyhoedd<br>• Atebolrwydd lleol y gwasanaeth llyfrgelloedd<br>• Ymlyniad cryf y cyhoedd i'w llyfrgell leol<br>• Mae'n haws cydleoli gwasanaethau eraill y cyngor neu wasanaethau lleol ac mae hyn yn helpu o ran</td><td>Y cyhoedd<br>• Bydd y gostyngiad arfaethedig mewn cyllid yn effeithio ar ansawdd ac amrywiaeth yr adnoddau a ddarperir, a fydd yn golygu bod llai o bobl yn defnyddio llyfrgelloedd<br>• Parhau i gau llyfrgelloedd cyhoeddus a/neu eu trosglwyddo i'r</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| sicrhau mannau gwasanaeth lleol<br><br>Ariannol<br>• Dim costau ychwanegol i weithredu newidiadau<br>• Yn 2014-15, sicrhawyd arbedion ariannol o rhwng 0.7% ac 19.9% gan lyfrgelloedd cyhoeddus fel yr amlinellir yn yr *Adolygiad Arbenigol,* a hyd yn hyn ni welwyd llawer o effaith ar wasanaethau yn y rhan fwyaf o awdurdodau<br>• Cydweithredu wrth gaffael adnoddau<br><br>Y ddarpariaeth<br>• Yn cael ei gweithredu ar hyn o bryd<br>• Yn gyson â strwythur a model llywodraethu presennol awdurdodau lleol<br>• Dim materion yn codi o ran perchnogaeth asedau<br><br>Staff<br>• Dim materion yn codi o ran Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth)<br><br>Strategol<br>• Mwy o gysondeb rhwng strategaeth y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus a strategaeth awdurdodau lleol<br>• Strategaeth llyfrgelloedd genedlaethol eisoes yn ei lle ar draws y sectorau | gymuned eu rheoli, a fydd yn galw am gyfraniad mawr gan y cyhoedd fel gwirfoddolwyr<br>• Mwy o amrywiaeth yn lefel y gwasanaethau a ddarperir<br><br>Ariannol<br>• Yn 2014-15, sicrhawyd arbedion ariannol o rhwng 0.7% ac 19.9% gan lyfrgelloedd cyhoeddus fel yr amlinellir yn yr *Adolygiad Arbenigol* (bydd ffigurau diweddarach ar gael ym mis Gorffennaf), a bydd angen gwneud mwy o arbedion<br>• Gofynnir i wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus nodi effaith arbedion pellach posibl hyd at 50% o'u cyllid mewn rhai achosion<br>• Mae diffyg cysondeb yn effeithio ar wasanaethau cyhoeddus ac arbedion, hyd yn oed o gaffael ar lefel genedlaethol<br>• Llai deniadol i gyllidwyr mawr na'r modelau eraill oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd i ddatblygu mentrau ar gyfer Cymru gyfan<br><br>Y ddarpariaeth<br>• Rhannu'r gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus sy'n golygu bod amrywiaeth ehangach o randdeiliaid yn darparu'r gwasanaethau gan arwain at lefel gwasanaeth fwy amrywiol<br>• Gallu gwasanaethau llyfrgelloedd llai i ymdopi ag effaith cyllidebau llai<br>• Nid yw lleoliadau'r mannau gwasanaeth presennol yn adlewyrchu'n llawn y newidiadau demograffig ac, i raddau, maent yn dal i fod yn seiliedig ar y ddarpariaeth hanesyddol<br><br>Staff<br>• Bydd cael llai o staff, yn enwedig llyfrgellwyr proffesiynol, yn ei |

| | |
|---|---|
| | gwneud yn gynyddol anoddach darparu gwasanaethau craidd<br>• Diffyg capasiti i ryddhau staff ar gyfer sesiynau datblygu a hyfforddi<br>• Dim llawer o gyfleoedd i ailgyfeirio staff oddi wrth waith gweinyddol er mwyn iddynt ganolbwyntio ar roi cyngor a hyfforddiant yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, ee gyda llythrennedd, dysgu gydol oes a chynhwysiant digidol<br>• Effaith sylweddol absenoldeb staff hirdymor ar y gwasanaeth a ddarperir yn sgil niferoedd staff isel<br>• Gostyngiad yn nifer yr arbenigwyr pwnc yn effeithio ar wasanaethau<br>• Ddim y defnydd mwyaf effeithlon o’r arbenigwyr pwnc sydd ar ôl (maent yn gorfod gwneud gwaith cyffredinol sy’n effeithio ar wasanaethau’r cyhoedd)<br>• Staff ar wahanol raddfeydd cyflog / telerau ac amodau sy’n effeithio ar symudedd staff<br>• Bydd strwythur gwastad yn effeithio ar gyfleoedd am ddyrchafiad a pha mor hawdd yw recriwtio i’r sector<br>• Nid yw’n mynd i’r afael â materion yn ymwneud ag arweinyddiaeth<br><br>Strategol<br>• Diffyg cynllunio trawsadrannol ar lefel leol a chynnydd o ran cydweithredu rhwng awdurdodau ar lefel ranbarthol<br>• Angen 22 o bolisïau/strategaethau lleol<br>• Mae’n cymryd mwy o amser i gyflwyno gwasanaethau newydd ac enghreifftiau o arferion gorau ledled Cymru, ee e-wasanaethau<br>• Mae’r gwasanaethau yn methu â chydymffurfio â Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ac nid yw’n debygol iawn y bydd hyn yn gwella |

| | |
|---|---|
| | • Cael gwared ar/israddio graddau rheoli uwch y llyfrgelloedd, sy'n golygu na fydd modd dylanwadu ar bolisi llywodraeth leol |
| Risgiau: | Tebygolrwydd: |
| Cwtogi pellach ar gyllid cyhoeddus dros y 3 blynedd nesaf | Yn gwbl sicr |
| Cau rhagor o fannau gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus gan effeithio ar wasanaethau cyhoeddus | Yn gwbl sicr |
| Lleihau niferoedd staff ymhellach gan effeithio ar wasanaethau cyhoeddus | Yn gwbl sicr |
| Rhannu ymhellach lyfrgelloedd cyhoeddus a datblygu gwasanaethau a reolir gan y gymuned ac a gaiff eu rhedeg gan ymddiriedolaethau | Yn gwbl sicr |
| Adolygiad Barnwrol / Ymchwiliad Cyhoeddus | Uchel |

62. Bydd y model hwn yn arwain at drefniant lle mae gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn cael eu cyflawni gan gymysgedd o awdurdodau lleol neu gan ymddiriedolaethau, gyda'r ddyletswydd statudol o dan Ddeddf 1964 yn aros gyda'r awdurdodau lleol. Cymhlethdod ychwanegol yw bod gwahanol fathau o ymddiriedolaethau yn cael eu sefydlu. Mae rhai yn cynnwys gwasanaethau diwylliannol, ac eraill yn cynnwys gwasanaethau hamdden. Penderfyniad yr ymddiriedolwyr, sydd â dyletswydd i "weithredu'n gyfrifol a dim ond er lles yr elusen", fydd cydsynio i gyfuno gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus sy'n cael eu rhedeg gan ymddiriedolaethau i greu gwasanaethau mwy o faint[19]. Daw hyn yn broblem gynyddol wrth i lawer rhagor o awdurdodau lleol ystyried trosglwyddo gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus i ymddiriedolaethau.

63. Byddai llawer o'r awdurdodau yn parhau i fod yn fach yn nhermau gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus y DU a byddent yn cael trafferth darparu ystod gyflawn o wasanaethau a dod o hyd i'r staff proffesiynol angenrheidiol. Roedd ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o'r *Adolygiad Arbenigol* yn dangos y byddai lleihad cymharol fach o ran cyllid , hynny yw hyd at £100,000 yn cael effaith anghymesur ar wasanaethau llyfrgelloedd bach, gan arwain at gau llyfrgelloedd a cholli llyfrgellwyr proffesiynol.

### *Asesiad o Gydweithio Rhanbarthol wedi'i seilio ar Bedwar Consortiwm Rhanbarthol*

64. Byddai'n bosibl, o dan adran 4 Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd

19 Y Comisiwn Elusennau. (2013*). Ymddiriedolwr elusen: beth mae'n ei olygu*. Ewch i: https://www.gov.uk/guidance/charity-trustee-whats-involved.cy

1964, sefydlu 4 o wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus rhanbarthol ar draws Cymru, o gael yr awdurdodau lleol i gydweithredu. Gellid cyflawni'r gwasanaethau trwy awdurdod arweiniol (trwy fodel "Contractiol", "Dirprwyo i gyd-bwyllgor" neu " Dirprwyo i awdurdod arall"), trwy ymddiriedolaethau neu trwy gwmni (model “Corfforaethol”).

65. Cyhoeddwyd adroddiad *Alternative Structures for Public Library Services in North Wales*[20] gan Robert Froud OBE yn 2013. Cafodd ei gomisiynu gan Benaethiaid Gwasanaethau Llyfrgelloedd a Gwybodaeth (HOLIS) y Gogledd a chafodd gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr ymchwil yn cynnwys modelu data ariannol a pherfformiad presennol y chwe awdurdod yn y Gogledd yn erbyn opsiynau ar gyfer y dyfodol ac roedd yn cymharu'r canlyniadau â Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Roedd un o'r modelau llyfrgelloedd cyhoeddus a adolygwyd wedi'i seilio ar dri gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus sef uno Môn a Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd y model tri gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus ar gyfer y Gogledd yn cynnig cymhelliad ariannol ddigon sylweddol i gyfuno'r gwasanaethau. Amlinellodd yr adroddiad yr arbedion ariannol posibl o ganlyniad i ailstrwythuro o ran staff yn erbyn y Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus perthnasol, a daeth i'r casgliad y byddai hynny yn gam bach ymlaen i Fôn a Gwynedd ond y byddai pethau'n parhau i fod yn debyg iawn i'r sefyllfa bresennol i'r ddau wasanaeth.

66. Cynhaliwyd asesiad (gweler y tabl isod) o gryfderau a gwendidau gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus ar sail pedwar consortiwm rhanbarthol o ran sicrhau digon o gapasiti a gallu i gefnogi darpariaeth leol.

<table>
<tr><td colspan="2">Opsiwn: Pedwar Consortiwm Rhanbarthol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Amserlen Cyflawni: 2-3 blynedd gyda'r posibilrwydd o brosiect peilot yn y Gogledd.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyllid: Bydd angen cytuno ar fformiwla cyllido i nodi cyfraniad ariannol pob awdurdod lleol newydd i'r bartneriaeth. Rhagwelir y bydd cyllid awdurdodau lleol yn lleihau yn ystod y 3 blynedd nesaf mewn termau real.</td></tr>
<tr><td>Cryfderau Posibl<ul><li>Darpariaeth fwy cyson i'r cyhoedd ledled Cymru o ran cyflawni gwasanaethau</li><li>Bydd cysoni hefyd yn ei gwneud yn haws i'r cyhoedd ddefnyddio gwasanaethau llyfrgelloedd ar draws y rhanbarth - cyfnod benthyca / dirwyon cyffredin etc.</li><li>Defnyddio sgiliau staff sy'n siarad Cymraeg i wella gwasanaethau dwyieithog ar draws ardal fwy</li><li>Gwell darpariaeth o ran cyngor a</li></ul></td><td>Gwendidau Posibl<ul><li>Parhau i gau llyfrgelloedd cyhoeddus</li><li>Problemau'n ymwneud ag atebolrwydd lleol</li><li>O bosibl colli ymlyniad y cyhoedd i’w llyfrgell a’u gwasanaeth lleol</li></ul>Ariannol<ul><li>Problemau'n ymwneud â chytuno ynglŷn â'r cyfraniad ariannol i'w dalu gan awdurdodau sy'n cymryd rhan</li></ul>Y ddarpariaeth</td></tr>
</table>

20 Froud, R. (2013). *Alternative Structures for Public Library Services in North Wales*. HOLIS.

| | |
|---|---|
| chymorth gan staff proffesiynol<br><br>Ariannol<br>• Bydd cysoni gweithdrefnau ac ad-drefnu'r swyddogaethau cefn swyddfa sydd ar ôl yn arwain at arbedion ariannol o ganlyniad i arbedion maint<br>• Arbedion ariannol yn sgil ailstrwythuro'r system reoli (ar ôl y cyfnod ad-dalu os rhoddir taliadau diswyddo)<br>• Bydd consortiwm yn fwy deniadol i arianwyr posibl oherwydd bydd cyflwyno'r cynnig cenedlaethol yn haws a bydd ei effaith a'i ganlyniadau yn fwy o'i gymharu â phrosiectau lleol.<br><br>Y ddarpariaeth<br>• Mwy o allu i ailfuddsoddi arbedion ariannol yn y gwasanaethau rheng flaen<br>• Bydd 4 gwasanaeth rhanbarthol yn fwy cadarn na 22 o wasanaethau<br>• Os yw amserlen cyflwyno'r gwasanaeth rhanbarthol yn cael ei halinio ag ad-drefnu llywodraeth leol, gellir ymdrin â materion fel Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) fel rhan o'r gwaith cyffredinol o ran pontio i'r awdurdodau newydd<br><br>Staff<br>• Defnydd mwy effeithlon o staff i helpu defnyddwyr<br>    o Ailgyfeirio mwy o staff proffesiynol i helpu'r cyhoedd<br>    o Byddai gwneud defnydd mwy effeithlon a chyson o dechnoleg hunanwasanaeth yn rhyddhau mwy o staff i helpu'r cyhoedd<br>    o Gwneud gwell defnydd o sgiliau arbenigol staff a'r posibilrwydd o gyflwyno sgiliau a gwasanaethau arbenigol newydd<br>    o Cyfleoedd sylweddol i ailgyfeirio | • Bydd gofyn i'r gwasanaethau rhanbarthol ymdrin â rheoli gwasanaeth lleol sy'n cael ei redeg gan yr awdurdod lleol a gwasanaethau llyfrgelloedd sy'n cael eu rheoli gan ymddiriedolaeth<br>• Bydd angen ymdrin â materion sy'n codi ynglŷn â pherchenogaeth asedau<br>• Nid yw'n rhan o'r model arfaethedig ar gyfer ad-drefnu a llywodraethu awdurdodau lleol<br>• Mae'n rhaid i'r system gyfathrebu fod yn effeithiol er mwy osgoi gwneud staff, mannau gwasanaeth, a defnyddwyr yn ymylol<br>• Bydd yn anos cynnal lefelau uchel o wasanaethau dwyieithog mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith<br>• Bydd yr ailstrwythuro'n tarfu ar gyflawni blaenoriaethau allweddol am gyfnod o tua 12 mis<br><br>Staff<br>• Mae staff ar wahanol raddfeydd cyflog/ amodau a thelerau ac felly bydd yn rhaid datrys problemau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE)<br><br>Strategol<br>• Bydd yn anos alinio â strategaethau lleol<br>• Bydd yn anos cyd-leoli'r gwasanaeth â gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol<br>• Atebolrwydd gwleidyddol mwy amrywiol |

| | |
|---|---|
| staff oddi wrth waith gweinyddol er mwyn iddynt ganolbwyntio ar roi cyngor a hyfforddiant yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, ee gyda llythrennedd, chwilio am swyddi, dysgu gydol oes a chynhwysiant digidol<br>• Bydd yn bosibl cynllunio'n well ar gyfer olyniaeth<br>• Gwell strwythur staffio'n rhoi mwy o gyfleoedd i ddatblygu ac i gael dyrchafiad<br><br>Strategol<br>• Mae'n datblygu'r gwaith a wnaed yn rhanbarthol fel rhan o Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli<br>• Mae'n haws ac yn fwy effeithlon cyflwyno gwasanaethau newydd ar sail Cymru gyfan o'i gymharu â 22 o awdurdodau lleol<br>• Mae'n haws alinio â strategaethau cenedlaethol<br>• Mae'n cyd-fynd â'r 4 consortiwm addysg rhanbarthol<br>• Mae'n gyfle i ddarparu mwy o arweinyddiaeth o ran datblygu gwasanaethau llyfrgelloedd gyda 4 rheolwr uwch gwasanaethau llyfrgelloedd ar y radd reoli briodol<br>• Mae'n gyfle i adeiladu ar gryfderau pob awdurdod yn y bartneriaeth<br>• Maen nhw'n ddigon mawr i ddylanwadu ar strategaeth yn y rhanbarth | |
| Risgiau: | Tebygolrwydd |
| Po hiraf y bydd y cyfnod paratoi, po fwyaf y bydd yn rhaid i'r rhanbarthau newydd ddelio gyda'r materion sy'n codi yn sgil y newid a chyda'r gwahaniaethau cynyddol rhwng gwasanaethau o ganlyniad i gwtogi cyllid. | Uchel |
| Cwtogi pellach ar gyllid cyhoeddus dros y 3 blynedd nesaf | Yn gwbl sicr |
| Cau rhagor o fannau gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus gan effeithio ar wasanaethau cyhoeddus | Yn gwbl sicr |

| | |
|---|---|
| Colli ymdeimlad o berchenogaeth ymhlith y cyhoedd | Cymedrol |
| Cwtogi mwy ar staffio'n cael effaith ar wasanaethau ac yn arwain at gynnydd mewn costau o ran datblygu gweithlu medrus newydd. | Uchel |
| Cymhlethdod cyflwyno model sy'n wahanol i'r strwythur newydd ar gyfer awdurdodau lleol | Cymedrol |

67. Y pedwar rhanbarth arfaethedig yw'r Gogledd, y Canolbarth a'r De-orllewin, Canol De Cymru a Dwyrain De Cymru. Cafodd partneriaethau llyfrgelloedd rhanbarthol presennol, daearyddiaeth, data demograffig a materion yn ymwneud â chyflawni gwasanaethau eu hystyried wrth ddatblygu'r rhanbarthau. Mae dwysedd poblogaeth isel mewn rhannau o ranbarth y Canolbarth a'r De-orllewin a byddai'n rhaid i wasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus ar gyfer y rhanbarth ddatblygu gwasanaeth sy'n ymdrin yn benodol â'r mater hwn.

| Y Rhanbarthau | Awdurdodau lleol |
|---|---|
| **Y Gogledd** | Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Ynys Môn |
| **Y De-orllewin a'r Canolbarth** | Abertawe, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Powys, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin |
| **Canol De Cymru** | Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf |
| **Dwyrain De Cymru** | Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy, Torfaen |

68. Mae’n bosibl y gall y model hwn drawsnewid gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus drwy gynnig darpariaeth fwy cyson ar draws Cymru gyfan, gan gyflwyno arbedion ariannol yn nhermau ad-drefnu swyddogaethau cefn swyddfa a chysoni gweithdrefnau er mwyn gallu ailgyfeirio adnoddau at wasanaethau rheng flaen ar lefel cymunedau lleol. Gyda chytundeb ffurfiol yn gefn iddyn nhw, byddai'r Consortia Rhanbarthol yn gallu symleiddio’r ffordd y caiff adnoddau sy'n crebachu eu rheoli ac yn gallu hyrwyddo modelau cyflawni gwasanaethau cymunedol ar y cyd ar lefel leol.

69. Yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996, cyflawnwyd gwasanaethau archif yn rhanbarthol yng Ngorllewin Morgannwg, Morgannwg a Gwent pan aeth awdurdod arweiniol ati i weinyddu'r gwasanaethau. Dangosodd llwyddiant hyn fod awdurdodau lleol yn gallu sefydlu a chynnal strwythurau llywodraethu a threfniadau ariannol cadarn. Nid yw'r gwasanaethau archif rhanbarthol wedi osgoi toriadau yn eu cyllid, ond gan eu bod yn wasanaethau mwy, maen nhw wedi gallu clustogi effaith y cwtogi fel bod yr effaith uniongyrchol ar wasanaethau i'r cyhoedd yn llai.

70. Yn 2012, gweithiodd Llywodraeth Cymru â'r 22 awdurdod lleol i sefydlu 4

consortiwm rhanbarthol er mwyn symud yr agenda genedlaethol i wella ysgolion yn ei blaen. Cytunwyd bod gweithio drwy ddull consortia yn ychwanegu gwerth i'r hyn y gallai awdurdodau lleol ei gyflawni ar eu pen eu hunain, gan eu galluogi i rannu arfer da, gwybodaeth a sgiliau, ac i wneud yn fawr o gryfderau lleol a meithrin gallu. Y 4 consortiwm rhanbarthol yw:

- Y Gogledd (Sir y Fflint, Conwy, Wrecsam, Gwynedd, Ynys Môn, Sir Ddinbych)
- Y Canolbarth a'r De-orllewin (Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Powys, Ceredigion)
- Canol De Cymru (Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf)
- Dwyrain De Cymru (Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen)

Mae'r model hwn yn enghraifft o gytundeb sydd eisoes yn bod i gydweithio er mwyn cyflawni diben cyffredin yn fwy effeithiol.

71. Mae angen modelu manylach i ystyried p'un a ddylid seilio system lywodraethu'r Consortia Rhanbarthol arfaethedig ar awdurdodau lleol neu a ddylid sefydlu ymddiriedolaeth ranbarthol. Nodwyd manteision ariannol peidio â thalu Ardrethi Annomestig Cenedlaethol gan CLlLC fel ffactor bwysig o ran pam mae awdurdodau lleol yn sefydlu ymddiriedolaethau i ddarparu gwasanaethau diwylliannol a hamdden. Pe byddai'r esemptiad hwn yn cael ei ymestyn i wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus, mae'n fwy tebygol y byddai gwasanaethau yn parhau i gael eu rheoli'n uniongyrchol gan lywodraeth leol. Bydd y broses gynyddol o ddarnio trefniadau rheoli a llywodraethu rhwng awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau yn her wrth symud ymlaen â'r broses o sefydlu consortia rhanbarthol.

***Darparu Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus ar Sail Genedlaethol***

72. Mae cael un gwasanaeth cenedlaethol, yn dilyn patrwm Libraries NI yng Ngogledd Iwerddon, yn fodel arall posibl ar gyfer darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Corff a noddir yw Libraries NI, wedi'i ariannu gan Gynulliad Gogledd Iwerddon. Mae ei waith yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd a benodwyd gan y Gweinidog. Er mwyn adlewyrchu anghenion lleol, byddai angen ategu gwasanaeth llyfrgelloedd cenedlaethol ar gyfer Cymru â strwythur rhanbarthol, ynghyd â Chyngor Ymgynghorol yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol a'r proffesiwn a defnyddwyr.

73. Amlinellir cryfderau a gwendidau darparu gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus wedi'i seilio ar fodel cenedlaethol yn y Tabl isod.

| **Opsiwn: Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cenedlaethol ar gyfer Cymru** |
|---|
| **Amserlen Cyflawni**: Fel ag yng Ngogledd Iwerddon, byddai angen deddfwriaeth newydd ar gyfer y model hwn. Mae hyn yn debygol o gymryd tua thair blynedd i ddod yn gyfraith a |

<table>
<tr><td colspan="2">rhwng 18 mis a dwy flynedd i ddod yn gwbl weithredol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gofynion Ariannol: Mae gwariant refeniw presennol awdurdodau lleol ar lyfrgelloedd cyhoeddus tua £50 miliwn y flwyddyn, gyda gwariant cyfalaf ychwanegol.</td></tr>
<tr><td>Manteision posibl<br>• Byddai'r model cenedlaethol yn darparu gwasanaeth mwy cyson i bobl ar draws Cymru (cynnig Cymru-gyfan) yn ogystal â thargedu categorïau sydd â blaenoriaeth, er enghraifft Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf<br>• Gellid ailfuddsoddi arbedion ariannol mewn gwasanaethau rheng flaen<br>• Bydd cysoni hefyd yn ei gwneud yn haws i'r cyhoedd ddefnyddio gwasanaethau llyfrgelloedd ar draws Cymru - cyfnod benthyca / dirwyon cyffredin etc.<br>• Defnyddio sgiliau staff sy'n siarad Cymraeg i wella gwasanaethau dwyieithog ar draws ardal fwy.<br><br>Ariannol<br>• Darparu arbedion ariannol o ran:<br>o Ad-drefnu'r system reoli, yn dilyn y cyfnod ad-dalu ar gyfer unrhyw daliadau diswyddo<br>o Caffael gwasanaethau a'u cyflwyno, ee hunanwasanaeth er mwyn rhyddhau staff i helpu'r cyhoedd<br>o Lleihau lefel y costau canolog a godir gan awdurdod lleol ar y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus<br>o Un lleoliad ar-lein ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus<br>o Cynyddu rhannu adnoddau i'r eithaf<br>• Cynyddu'r manteision sy'n deillio o gysoni gweithdrefnau i'r eithaf. Bydd ad-drefnu'r swyddogaethau cefn swyddfa sydd ar ôl yn arwain at arbedion ariannol o ganlyniad i arbedion maint<br>• Bydd yn fwy deniadol i arianwyr posibl oherwydd bydd cyflwyno'r cynnig</td>
<td>Gwendidau posibl<br>• Ni fydd yn atal llyfrgelloedd cyhoeddus rhag cael eu cau ar hyn o bryd<br>• Mae angen datrys materion yn ymwneud ag atebolrwydd lleol.<br>• Colli ymlyniad y cyhoedd i'w llyfrgell a'u gwasanaeth lleol<br><br>Ariannol<br>• Costau ychwanegol ynghlwm â sefydlu adran gyllid ac adnoddau dynol ganolog<br>• Problemau ynglŷn â neilltuo neu ddyrannu cyllid oddi wrth awdurdodau lleol<br><br>Y ddarpariaeth<br>• Oherwydd yr amser a gymerir i'w sefydlu, ni fydd yn atal y broses o ddarnio gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn y tymor byr<br>• Bydd yn rhaid i wasanaeth cenedlaethol ddatrys problemau etifeddu gwasanaeth a oedd yn cael ei redeg gan y cyn awdurdod lleol a gwasanaeth llyfrgelloedd a oedd yn cael ei reoli gan ymddiriedolaeth<br>• Bydd angen ymdrin â phroblemau ynglŷn â pherchenogaeth asedau<br>• Ni fydd yn rhan o fodel strwythur a llywodraethu llywodraeth leol<br>• Mae'n bosibl y bydd problemau o ran darparu gwasanaethau dros ardal ddaearyddol mor fawr<br><br>Staff<br>• Mae staff ar wahanol raddfeydd cyflog/ amodau a thelerau ac felly bydd yn rhaid datrys problemau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE)<br><br>Strategol<br>• Bydd yn anos alinio â strategaethau</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| cenedlaethol yn haws a bydd ei effaith a'i ganlyniadau'n fwy o'i gymharu â phrosiectau lleol<br><br>Y ddarpariaeth<br>• Bydd brandio a datblygu cynulleidfa ar raddfa Cymru gyfan yn helpu i hyrwyddo gwasanaethau llyfrgelloedd a faint o ddefnydd a wneir ohonynt<br>• Byddai gwneud defnydd mwy effeithlon a chyson o dechnoleg hunanwasanaeth yn rhyddhau rhagor o staff i helpu'r cyhoedd<br><br>Staff<br>• Gwell strwythur staff :<br>  ○ Gwneud defnydd gwell o arbenigedd proffesiynol i helpu'r cyhoedd<br>  ○ Darparu arbenigedd staff mewn meysydd newydd (neu eu hailgyflwyno - ee gwybodaeth fusnes)<br>  ○ Mwy o gyfleoedd i staff gael eu dyrchafu gan wneud y proffesiwn yn fwy deniadol<br>  ○ Gwell cynllunio ar gyfer olyniaeth<br><br>Strategol<br>• Ymyrryd mwy strategol i ymdrin â materion fel cynhwysiant digidol a chymorth i gael gwaith<br>• O ganlyniad i raddfa'r ddarpariaeth, mae gan y gwasanaeth y potensial i ddod yn ddylanwad pwysig ar strategaeth - siop 'un stop' i wasanaeth ledled Cymru<br>• Mae'n haws alinio â strategaethau cenedlaethol | lleol<br>• Bydd yn anos cyd-leoli'r gwasanaeth â gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol<br>• Atebolrwydd gwleidyddol mwy amrywiol |
| Risgiau: | Tebygolrwydd: |
| Cwtogi pellach ar gyllid cyhoeddus dros y 3 blynedd nesaf | Yn gwbl sicr |
| Cau rhagor o fannau gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus gan effeithio ar wasanaethau | Uchel |
| Colli ymdeimlad o berchenogaeth ymhlith y | Cymedrol |

| | |
|---|---|
| cyhoedd | |
| Cwtogi mwy ar staffio'n cael effaith ar wasanaethau ac yn arwain at gynnydd mewn costau o ran datblygu gweithlu medrus newydd yn y dyfodol | Isel |
| Cymhlethdod cyflwyno model sy'n wahanol i'r strwythur newydd ar gyfer awdurdodau lleol | Cymedrol |

74. Nodwyd y canlynol fel prif fanteision gwasanaeth Gogledd Iwerddon:
- y gallu i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus mwy cyson ar draws Gogledd Iwerddon gyfan
- y gallu i gyflwyno gwasanaethau newydd yn gyflymach ac yn fwy effeithlon
- roedd trosglwyddo gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus oddi wrth 5 Bwrdd Addysg a Llyfrgelloedd yng Ngogledd Iwerddon wedi cyflawni arbedion ariannol fel rhan o waith ad-drefnu rheoli'r gwasanaeth
- roedd y strwythur staffio gwell a ddeilliodd o hynny wedi galluogi'r gwasanaeth i ganolbwyntio’n fwy ar dargedu gwasanaethau sy'n cyfrannu at flaenoriaethau fel llythrennedd, sgiliau digidol a helpu pobl i gael gwaith
- un system gaffael ar gyfer caledwedd a gwasanaethau TGCh
- cydgysylltu system datblygu'r gweithlu yn well
- proffil uwch yn wleidyddol
- yn fwy abl i wrthsefyll gostyngiadau mewn cyllid

75. Gwnaeth Gweinidog Gogledd Iwerddon gydnabod llwyddiant Libraries NI o ran cyflawni cydflaenoriaethau'r gwasanaeth llyfrgelloedd a'r Cynulliad pan gyhoeddodd mai 7% fyddai’r gostyngiad yn y cyllid ar gyfer Libraries NI yn 2014-15 yn lle 14% fel y cynlluniwyd yn wreiddiol. Yr awgrym yw y gellir ymdopi â'r gostyngiad hwn o ran cyllid heb gau rhagor o lyfrgelloedd, gan danlinellu'r gallu ychwanegol sydd gan sefydliadau mwy o faint i wrthsefyll pwysau. Mae gallu Cynulliad Gogledd Iwerddon i siarad ag un sefydliad ar gyfer Gogledd Iwerddon er mwyn cyflwyno prosiectau llyfrgelloedd cyhoeddus allweddol yn werthfawr dros ben.

76. Er gwaethaf y gwahaniaeth rhwng Gogledd Iwerddon a Chymru o ran poblogaeth a maint, mae rhai elfennau sy'n debyg. Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn wasanaeth sydd wedi'i ddatganoli, ac mae eu natur wledig a'u gwariant fesul 1,000 o bobl ar lyfrgelloedd cyhoeddus hefyd yn debyg.

77. Er hynny, mae materion allweddol eraill y mae angen eu hystyried. Roedd yn rhaid cael Deddf Llyfrgelloedd newydd ar gyfer Gogledd Iwerddon er mwyn sefydlu Libraries NI. Byddai cyflwyno Deddf o'r fath yng Nghymru'n gofyn am gyfnod paratoi o 3-4 blynedd ar ôl ei rhoi ar y rhestr ddeddfwriaeth. Cymerodd 18 mis arall i sefydlu Libraries NI ac efallai fod 2 flynedd yn amserlen fwy cywir ar gyfer sefydlu gwasanaeth ychydig yn fwy. Hyd yn oed gyda chefnogaeth wleidyddol i Ddeddf o'r fath, byddai'n cymryd 5-6 mlynedd i sefydlu Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cenedlaethol i Gymru. Felly ni fyddai'n bosibl rhoi gwasanaeth cenedlaethol ar

waith ar yr un pryd ag ad-drefnu llywodraeth leol. Yn hytrach byddai gofyn ailstrwythuro gwasanaethau llyfrgell eto o fewn 2 flynedd i'r ad-drefnu.

78. Byddai angen i Lywodraeth Cymru neilltuo arian/cadw arian yn ôl o'r cyllid mae'n ei roi i awdurdodau lleol er mwyn ariannu'r gwasanaeth. Byddai costau sefydlu ychwanegol ynghlwm â sefydlu Gwasanaeth Cenedlaethol newydd hefyd.

79. Nid oes unrhyw amheuaeth y byddai'r model hwn yn darparu gwasanaeth mwy cadarn a mwy effeithlon, ac yn anad dim yn darparu lefel fwy cyson o wasanaeth i bobl Cymru, ar ôl y cyfnod ad-dalu ar gyfer costau sefydlu untro. Fodd bynnag, mae'r amser y byddai'n ei gymryd i gyflwyno Deddf newydd a'r angen am gyllid cychwynnol yn rhwystrau sylweddol.

# VII. Llyfrgell Ddigidol Gyhoeddus Genedlaethol ar gyfer Cymru

80. Un maes a welodd gydweithio sylweddol yng Nghymru yw datblygu amrywiaeth o wasanaethau ar-lein cost-effeithiol i'r cyhoedd. Mae llyfrgelloedd awdurdodau lleol, llyfrgelloedd ysgolion a gweithleoedd a Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi cydweithio fel rhan o strategaethau llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru i gynnig gwasanaethau ar-lein am ddim i'r cyhoedd, ynghyd â'r hyn y maen nhw'n ei ddarparu'n uniongyrchol i'w defnyddwyr eu hunain. Mae consensws ei bod yn well datblygu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus ar-lein ar y cyd ac ar sail Cymru gyfan.

***Caffael Effeithlon***

81. Mae'n elfen hanfodol o linyn *Adnoddau i Bawb* strategaeth *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* bod llyfrgelloedd Cymru'n cydweithio i ddatblygu cynnig cenedlaethol o ran gwasanaeth ar-lein o bell am ddim, ee o'r cartref neu yn y gweithle. Mae tystiolaeth y gall caffael ar y cyd ar sail Cymru gyfan arwain at arbed 30-40% o gost prynu gwasanaethau ar-lein.

82. Er enghraifft, mae Castell-nedd Port Talbot wedi arwain o ran caffael e-lyfrau, e-gylchgronau, ac e-lyfrau llafar hefyd erbyn hyn, ar y cyd. Mewn rhai achosion mae'n fwy hyblyg ac yn rhatach i brynu gwasanaethau wedi'u seilio ar 22 o awdurdodau yn flynyddol, oherwydd y newidiadau pris cyflym sy'n digwydd o dan y model prisio a fabwysiadwyd gan y diwydiant. Gellid cynnwys gwasanaethau digidol ychwanegol fel y prawf dinasyddiaeth a'r Prawf Gyrru Theori.

83. Mae angen mwy o waith nawr i ddatblygu'r arfer da presennol a sefydlu cytundeb ffurfiol i ddarparu'r Gwasanaethau Llyfrgelloedd Digidol Cyhoeddus Cenedlaethol ar y cyd, gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n ganolbwynt ar gyfer caffael gwasanaethau ar-lein.

84. Y nod yw bod defnyddwyr ar draws Cymru ag un hunaniaeth mewngofnodi'n unig, a gellid ategu hynny ag un cerdyn llyfrgelloedd cyhoeddus a fyddai'n ddilys ym mhobman. Byddai'n rhaid mabwysiadu un system rheoli llyfrgelloedd (LMS) ar gyfer Cymru er mwyn darparu'r cyfleuster hwn. Byddai system o'r fath hefyd yn ei gwneud yn bosibl monitro defnydd a thueddiadau er mwyn gwella gallu'r gwasanaethau llyfrgelloedd i ymateb i anghenion defnyddwyr.

***Gwasanaethau Digidol Newydd***

85. Gallai'r broses o fabwysiadu gwasanaethau newydd elwa ar brofiad gwledydd fel Denmarc lle mae gwasanaethau llyfrgelloedd yn cynnig lawrlwytho cerddoriaeth a fideos fel rhan o'r gwasanaeth. Ar hyn o bryd, mae Denmarc hefyd yn buddsoddi mewn dod â gwasanaethau ar-lein at ei gilydd i greu arlwy sydd wedi'i integreiddio a'i dargedu'n well. Datblygodd Denmarc wefan i blant hefyd, sy'n darparu mynediad at amrywiaeth o adnoddau perthnasol. Byddai alinio'r gwasanaeth yn well â

phlatfform Hwb yng Nghymru yn galluogi plant i ddefnyddio llyfrgelloedd i gwblhau eu gwaith cartref a chael gafael ar adnoddau. Byddai hyn yn wasanaeth arbennig o bwysig mewn ardaloedd difreintiedig i'w helpu gyda'u gwaith ysgol.

86. Mae'r gofyn am wasanaethau digidol am ddim yn debygol o gynyddu wrth i bolisi digidol llywodraeth y DU gael ei weithredu'n llawn. Profiad awdurdodau lleol Cymru a dreialodd y system Paru Swyddi Ar-lein oedd bod angen cymorth sylweddol ar hawlwyr i fewngofnodi a chael mynediad at y gwasanaeth, a bod angen hyfforddi staff ynghylch y system er mwyn iddyn nhw allu helpu'n effeithiol. Pan fydd Credyd Cynhwysol wedi cael ei roi ar waith yn llwyr, bydd angen i holl lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru fod yn barod i ddelio â nifer sylweddol o unigolion, sydd o bosibl yn agored i niwed, ar adeg pan fo'u hadnoddau o ran staff yn crebachu.

## VIII. Casgliad

87. Mae'n edrych yn debygol y bydd cyllid ar gyfer llyfrgelloedd yn parhau i leihau mewn termau real dros y tair blynedd nesaf. Os nad oes ymyriad o ryw fath yn digwydd, bydd y broses andwyol o ddarnio darpariaeth gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru'n parhau. Bydd manteision o ran talu llai mewn ardrethi a TAW, yn sgil trosglwyddo llyfrgelloedd cyhoeddus oddi wrth awdurdodau lleol i ymddiriedolaethau, ond mae'n debygol y bydd yr ymddiriedolaethau'n cael llai o arian gan yr awdurdodau lleol flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae ymddiriedolaethau'n gallu cyflawni arbedion ariannol o ran ardrethi a TAW, ond o'u mesur yn erbyn costau eu sefydlu, mae angen gwneud mwy o ymchwil ynglŷn â'u hyfywedd hirdymor.

88. Mae'n debygol y bydd rhagor o lyfrgelloedd lleol yn cau yn ystod y tair blynedd nesaf ac y bydd llyfrgelloedd bach yn cael eu trosglwyddo i'w rheoli gan y gymuned os na chytunir ar fodel newydd ar gyfer darparu llyfrgelloedd cyhoeddus. Ac eto, mae sefydlu llyfrgelloedd lleol fel canolfannau cymunedol, lle mae gwasanaethau eraill wedi'u lleoli yn yr un adeilad, yn darparu cyfle i gael model rheoli ac ariannol cynaliadwy yn lle'r model traddodiadol o ddarparu un gwasanaeth yn unig. Gallai canolfannau cymunedol o'r fath gynnig darpariaeth amlwasanaeth, gan ddefnyddio sgiliau proffesiynol o ran rheoli gwybodaeth a chefnogi cwsmeriaid. Byddai mabwysiadu trefniant bandio i fapio'r ddarpariaeth yn helpu i gadw gwasanaethau ar draws Cymru, tra bo'r broses o ddarnio gwasanaethau'n parhau o fewn ardaloedd awdurdodau lleol unigol.

89. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd ynglŷn â sut y dylai awdurdodau lleol gefnogi llyfrgelloedd bach a reolir gan y gymuned hefyd yn creu cyfleoedd i sicrhau bod darpariaeth leol yn cael cefnogaeth broffesiynol.

90. Mae'r cynnig i sefydlu un Llyfrgell Ddigidol Gyhoeddus Genedlaethol ar gyfer Cymru yn un grymus yn ôl y dystiolaeth ynghylch arbed costau a thebygolrwydd cael gwasanaethau gwell i ddefnyddwyr. Byddai'n rhaid cytuno ar un system rheoli llyfrgelloedd ar gyfer Cymru cyn gallu cyflawni'r amcan hwn yn y tymor byr.

91. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu, os nad oes trefn ffurfiol, strwythuredig o gydweithio rhanbarthol yn cael ei sefydlu, y cyfyngir yn fawr ar gapasiti a gallu llyfrgelloedd lleol i gyflawni gwasanaethau craidd, heb sôn am gefnogaeth ddigidol ychwanegol. Bydd angen trafodaethau manwl ag awdurdodau lleol ynglŷn â ph'un a ellid sefydlu 4 consortiwm rhanbarthol (yn dilyn y model gwella ysgolion), a beth fyddai eu trefniadau llywodraethu ac ariannol a'u cyfrifoldebau o ran y gweithlu. Dylai'r trafodaethau hyn ddechrau ar unwaith er mwyn lliniaru darnio cynyddol y ddarpariaeth ar draws Cymru. Mae'n debygol y bydd angen tua £2 filiwn dros ben y cyllidebau presennol i sefydlu'r model cyflawni newydd dros gyfnod o ddwy flynedd, pe gellid cytuno ar hynny. Bydd gwaith sydd ar y gweill yn y Gogledd o ran rhoi'r System Rheoli Llyfrgelloedd ar gyfer Cymru ar waith, a'r gwaith cysoni a chydweithio sy'n gysylltiedig â hwnnw, yn darparu mwy o fanylion ynglŷn â chostau cyflwyno gwasanaethau rhanbarthol.

92. Mae manteision eglur i'r model gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus cenedlaethol o ran cysondeb gwasanaethau a chadernid yn wyneb pwysau ariannol. Er hynny, mae'r cyfnod paratoi hirach yn llesteirio'r cynnig hwn yn y tymor byr oherwydd bod tystiolaeth ddiweddar yn dangos yn eglur bod angen cymryd camau nawr i sicrhau bod pobl Cymru'n parhau i fwynhau gwasanaeth effeithlon, proffesiynol sy'n cyfrannu at les cymunedau ledled Cymru drwy gydgyflawni gwasanaethau cymunedol.

93. Bydd dull newydd mor radical o ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn gofyn am ymrwymiad cadarn ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol. Mae manteision sylweddol i gydweithio ffurfiol a bydd risgiau'n codi yn sgil gwneud dim y bydd angen ymdrin â nhw. Byddai sefydlu gweithgor ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a CLlLC yn ei gwneud yn bosibl llunio cynllun o'r amcanion tymor byr, tymor canolig a hirdymor; y gweithdrefnau sydd eu hangen i sefydlu llyfrgelloedd fel canolfannau cymunedol amlwasanaeth, a mapio'r ddarpariaeth ledled Cymru; a sut i fynd ati i sefydlu a llywodraethu 4 consortiwm rhanbarthol i gyflawni agenda o wella parhaus ar gyfer gwasanaethau llyfrgell. Byddai'r grŵp gorchwyl a gorffen hwn hefyd yn hwyluso’r ffordd i lunio strategaethau ynglŷn â lle y gall llyfrgelloedd ychwanegu gwerth at wasanaethau sy'n mynd i'r afael â thlodi ac yn gwella sgiliau ar lefel gymunedol.

## Atodiad 1: Hawliau Craidd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

***Cwsmeriaid a Chymunedau***

*HCSLlCC 1 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwys wrth law i helpu.*
*HCSLlCC 2 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi dysgu a mwynhad ac yn galluogi defnyddwyr i gael y budd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.*
*HCSLlCC 3 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau ac adnoddau i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, a chyfranogiad cymunedol.*

***Mynediad i Bawb***

*HCSLlCC 4 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru ar agor i holl aelodau eu cymunedau.*
*HCSLlCC 5 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â hwy.*
*HCSLlCC 6 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu lle diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas.*
*HCSLlCC 7 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.*

***Dysgu am Oes***

*HCSLlCC 8 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim.*
*HCSLlCC 9 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth.*
*HCSLlCC 10 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu defnydd am ddim o'r Rhyngrwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys gwasanaeth diwifr.*
*HCSLlCC 11 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn cynnig defnydd am ddim o adnoddau gwybodaeth ar-lein 24 awr y dydd.*
*HCSLlCC 12 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at adnoddau o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys rhai yn yr iaith Gymraeg, ac yn adlewyrchu ffurfiau newidiol cyhoeddi.*
*HCSLlCC 13 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhannu eu catalogau, er mwyn i ddefnyddwyr fedru gwneud un chwiliad drwy holl adnoddau llyfrgelloedd Cymru.*

***Arweinyddiaeth a Datblygu***

*HCSLlCC 14 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn hyrwyddo llyfrgelloedd er mwyn denu rhagor o bobl i elwa o'u gwasanaethau.*
*HCSLlCC 15 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.*
*HCSLlCC 16 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i agor mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.*
*HCSLlCC 17 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.*
*HCSLlCC 18 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu proses gwyno sy'n glir, yn amserol ac yn dryloyw ar gyfer adegau pan fo rhywbeth yn mynd o'i le.*

| **Atodiad 2: Crynodeb o ddata llyfrgelloedd cyhoeddus fesul rhanbarth ac awdurdod lleol presennol. Data oddi wrth StatsCymru** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Poblogaeth / Arwynebedd** | | | | **Gwariant** | |
| | Poblogaeth | Dwysedd poblogaeth - Canol 2014 | Arwynebedd (Km²) | MALIC 2011 % yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOA) ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig | Alldro gwariant refeniw gros 2012-13 | Alldro gwariant refeniw gros 2013-14 |
| **Y Gogledd** | | | | | | |
| Conwy | 116,287 | 103.3 | 1,125.80 | 3.00 | 2,169,823 | 2,194,710 |
| Sir Ddinbych | 94,791 | 113.3 | 836.7 | 10 | 2,091,166 | 2,132,689 |
| Sir y Fflint | 153,804 | 351.6 | 437.5 | 4 | 2,823,596 | 2,904,944 |
| Gwynedd | 122,273 | 48.2 | 2,534.90 | 3.00 | 2,160,000 | 2,027,000 |
| Ynys Môn | 70,169 | 98.6 | 711.3 | 2 | 1,188,444 | 1,114,000 |
| Wrecsam | 136,714 | 271.4 | 503.8 | 6 | 2,467,617 | 2,567,192 |
| | 694,038 | | 6,150.00 | | 12,900,646 | 12,940,535 |
| **Y De-orllewin a'r Canolbarth** | | | | | | |
| Sir Gaerfyrddin | 184,898 | 78 | 2,370.30 | 5.00 | 2,902,118 | 2,866,369 |
| Ceredigion | 75,425 | 42.2 | 1,785.60 | 0.00 | 1,431,598 | 1,302,667 |
| Castell-nedd Port Talbot | 140,490 | 318.3 | 441.3 | 15 | 2,820,537 | 2,723,871 |
| Abertawe | 241,297 | 635.5 | 379.7 | 12 | 3,621,000 | 3,629,000 |
| Sir Benfro | 123,666 | 76.4 | 1,618.70 | 4.00 | 1,945,000 | 1,946,000 |
| Powys | 132,675 | 25.6 | 5,180.70 | 1.00 | 2,507,097 | 2,499,771 |
| | 898,451 | | 11,776.30 | | 15,227,350 | 14,967,678 |
| **Canol De Cymru** | | | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 141,214 | 563.2 | 250.7 | 11 | 2,272,843 | 2,153,860 |
| Caerdydd | 354,294 | 2523.5 | 140.4 | 16 | 6,565,000 | 6,760,024 |
| Merthyr Tudful | 59,065 | 530 | 111.4 | 25 | 909,000 | 872,245 |
| Rhondda Cynon Taf | 236,888 | 558.5 | 424.2 | 18 | 4,108,438 | 3,946,248 |
| Bro Morgannwg | 127,685 | 385.8 | 330.9 | 6 | 2,654,000 | 2,616,000 |
| | 919,146 | | 1257.6 | | 16,509,281 | 16,348,377 |
| **Dwyrain De Cymru** | | | | | | |
| Blaenau Gwent | 69,674 | 640.8 | 108.7 | 23 | 1,143,091 | 1,156,161 |
| Caerffili | 179,941 | 648.7 | 277.4 | 15 | 4,181,000 | 4,219,000 |
| Sir Fynwy | 92,336 | 108.7 | 849.1 | 0 | 1,547,232 | 1,755,998 |
| Casnewydd | 146,841 | 770.7 | 190.5 | 16 | 2,151,420 | 3,550,795 |
| Torfaen | 91,609 | 728.8 | 125.7 | 7 | 1,500,000 | 1,938,000 |
| | 580,401 | | 1551.4 | | 10,522,743 | 12,619,954 |
| **Cymru** | 3,092,036 | 149.1 | 20,735.50 | | | |

## ATODIAD 3: Cyfeiriadau


[1] Y Sefydliad Addysg. (2013). *Reading for pleasure*. Ewch i http://www.ioe.ac.uk/newsEvents/89938.html.

[2] Llywodraeth Cymru. (2014). *Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru 2014* Ewch i http://gov.wales/docs/drah/publications/141021libraries-review-report-cy.pdf

[3] Ymddiriedolaeth Carnegie UK. (2012). *A New Chapter: Public Libraries in the 21st Century.* Ewch i: http://carnegieuktrust.org.uk/publications/2012/a-new-chapter

[4] Ymddiriedolaeth Carnegie UK. (2014). *Speaking Volumes: the impact of public libraries on wellbeing project.* Ewch i http://tinyurl.com/pndczc3

[5] Sullivan, A a Brown, M. (2013). *Reading for Change – Performance and Engagement Across Countries*: *Results from PISA 2000,* OECD 2002. UCL. Ewch i http://www.ioe.ac.uk/newsEvents/89938.html

[6] Cymunedau 2.0. (2013). *Communities 2.0 Blog Tackling Poverty Fortnight – Libraries: Creating opportunities across mediums – Opinion.* (http://tinyurl.com/plqovq5. Dim ar gael ymhellach

[7] Twelfth Man. (2005). *Strategaeth Farchnata Genedlaethol (2006-2011)*. Ewch i'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD)

[8] Llywodraeth Cymru. (2014). *Dadansoddiad a throsolwg o berfformiadau awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru*. Ewch i http://gov.wales/docs/drah/publications/141209framework4-report-cy.pdf

[9] Archives, Libraries and Museums Alliance UK. (2014). *The Report on the Economic Value of Library Services*. Ewch i http://tinyurl.com/q4fc7bj

[10] Llywodraeth Cymru. (2015). *Canllawiau ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru*. Ewch i http://gov.wales/docs/drah/publications/150522community-managed-libraries-cy.pdf

[11] Llyfrfa Ei Mawrhydi. (1964). *Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.* Ewch i: http://www.legislation.gov.uk/wsi/1964/75/contents/made/1964/75

[12] Ymddiriedolaeth Carnegie UK. (2012). *A New Chapter: Public library services in the 21st century*. Ewch i http://carnegieuktrust.org.uk/publications/2012/a-new-chapter

[13] Ymddiriedolaeth Carnegie UK. (2012). *A New Chapter: Public library services in the 21st century – Welsh data about attitudes to and use of public libraries*. Ewch i http://carnegieuktrust.org.uk/publications/2012/a-new-chapter---wales-factsheet

[14] Llywodraeth Cymru. (2012). *Deall Dyfodol Cymru.* Ewch i http://tinyurl.com/pfuqcb5

[15] Roberts, D Hywel E. (2015). *Llyfrgelloedd Cymunedol a Llyfrgelloedd Ymddiriedolaethau Annibynnol yng Nghymru* Ewch i http://gov.wales/docs/drah/publications/150211-independent-trusts-community-libraries-cy.pdf

[16] Llywodraeth Cymru. (2015). *Canllawiau ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru.* Ewch i http://gov.wales/docs/drah/publications/150522community-managed-libraries-cy.pdf

[17] Llywodraeth Cymru. (2014). *Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth*. Ewch i: http://gov.wales/docs/drah/publications/140425wpls5cy.pdf

[18] Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. (2014). *Cynllun Gweithredu Strategol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd 2014-2017* Ewch ihttp://tinyurl.com/qd7a9xt

[19] Y Comisiwn Elusennau. (2013*). Ymddiriedolwr elusen: beth mae'n ei olygu.* Ewch i https://www.gov.uk/guidance/charity-trustee-whats-involved.cy

[20] Froud, R. (2013). *Alternative Structures for Public Library Services in North Wales*. HOLIS.